

CYNNWYS

ADOLYGIAD O BROSIECTAU CADW EBRILL 2003 – MAWRTH 2004

YAMG 1	Gwasanaethau Rheoli Treftadaeth Ranbarthol	2
YAMG 43	Gwasanaethau Cynllunio Archeolegol Rhanbarthol	9
YAMG 61	Nodweddu Tirwedd Hanesyddol	10
YAMG 67	Tir Gofal	12
YAMG 72	Safleoedd Angladdol a Defodol Cynhanesyddol	12
YAMG 73	Anheddiad Eglwysig y Canol Oesoedd Cynnar	13
YAMG 75	Ficysau a Ffyrdd Rhufeinig	14
YAMG 76	Glannau Trefol	17
YAMG 77	Llociau Ffogydd Bylchog Cynhanesyddol	20

ADOLYGIAD O BROSIECTAU CADW EBRILL 2004 – MEDI 2004 **22**

YAMG 61	Nodweddu Tirwedd Hanesyddol	22
YAMG 67	Tir Gofal	23
YAMG 72	Safleoedd Angladdol a Defodol Cynhanesyddol	24
YAMG 73	Anheddiad Eglwysig y Canol Oesoedd Cynnar	24
YAMG 75	Ficysau a Ffyrdd Rhufeinig	24
YAMG 76	Glannau Trefol	26
YAMG 78	Llociau amddiffynnol cynhanesyddol	26
YAMG 79	Amgylchion Caerllion	26
YAMG 80	Gweithiau Haearn De-ddwyrain Cymru	27
YAMG 81	Gwella CCS (Eglwysi)	29

CONTRACTAU GWYDDONOL A GYLLIDIR GAN CADW **29**

ADOLYGIAD CYHOEDDI AC ÔL-GLODDIO **29**

Adroddiadau Llenyddiaeth Lwyd	30
-------------------------------	----

RHAGLEN Y DYFODOL HYDREF 2004-MAWRTH 2005 **31**

YAMG 1	Gwasanaethau Rheoli Treftadaeth Ranbarthol	31
YAMG 43	Gwasanaethau Cynllunio Archeolegol Rhanbarthol	31
YAMG 61	Nodweddu Tirwedd Hanesyddol	31
YAMG 67	Tir Gofal	31
YAMG 75	Ficysau a Ffyrdd Rhufeinig	32
YAMG 76	Glannau Trefol	32
YAMG 78	Llociau amddiffynnol cynhanesyddol	32
YAMG 79	Amgylchion Caerllion	32

ADOLYGIAD O BROSIECTAU CADW EBRILL 2003 – MAWRTH 2004

YAMG 1 Gwasanaethau Rheoli Treftadaeth Ranbarthol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweld cynnydd parhaol yn y galw am wasanaethau rheoli treftadaeth. Does dim dwywaith nad yw hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd a thwf yn eu diddordeb mewn archaeoleg.

Nodir adroddiadau gweithgarwch gan y prif feysydd, fel y'u darperir yn y fanyleb waith a gytunwyd rhwng CADW ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru. Cedwir cofnod o bob gweithred ac maent yn ffurfio rhan o Gronfa Ddata Digwyddiadau'r Amgylchedd Hanesyddol sy'n cael ei chynnal gan yr Ymddiriedolaeth.

Gwybodaeth mewn ymateb i geisiadau gan CADW yn cynnwys data i gefnogi prosiectau, yn enwedig y Rhaglen Wella Cofrestru

Wrth i CADW ofyn, darparodd yr Ymddiriedolaeth wybodaeth fanwl iddynt, sydd wedi'i gynnwys yng Nghofnod Cofadeiladau a Safleoedd (CCS).

Gwybodaeth CCS i ymholwyr yn unol â 'Chanllawiau Mynediad a Chodi Tâl' yr Ymddiriedolaeth (heblaw am baragraff 11)

Darparodd Adran Rheoli Treftadaeth yr Ymddiriedolaeth wybodaeth a chyngor archeolegol i unigolion a chymunedau'r ardal i'w cynorthwyo gyda'u prosiectau a'u diddordebau. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 287 o ymholiadau, ac arweiniodd 76 o'r rhain at ymweliad â swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth er mwyn ymgynghori â ffeiliau gwybodaeth manwl y Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd (CCS). Mae'r cyfanswm yn cynnwys 77 ymholiad masnachol; ar gyfer y rhain talodd yr ymholwyr y costau prosesu.

Blwyddyn	Cyfanswm ymgynghoriadau*	yr	Ymweliadau â'r Ymddiriedolaeth
2000-2001	152		49
2001-2002	217		51
2002-2003	277		59
2003-2004	287		76

Cyngor ar geisiadau Caniatâd Cofadeiladau Cofrestredig

Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth fanylion 36 cais Caniatâd Cofadeiladau Cofrestredig. Oherwydd natur yr ymgynghoriadau, nid oedd angen ymateb pendant i'r rhan fwyaf ohonynt; mewn chwe achos, rhoddwyd ymateb manwl. Amrywiai'r ymatebion manwl hyn o gefnogi ceisiadau ac argymell y dylid darparu gwybodaeth bellach er mwyn goleuo'r broses, i awgrymu amodau addas ac argymell gwrthod cais pan na ellid diogelu diddordebau archeolegol yn foddhaol.

Cyfarfodydd/ymweliadau â safleoedd gan staff curadurol

Cyfarfu'r Ymddiriedolaeth ag ystod eang o asiantaethau cyhoeddus a phreifat er mwyn trafod materion yn ymwneud â safleoedd arbennig. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys: Yr As Fawr, Bro Morgannwg, cyngor ar esgyrn yn cael eu herydu o fynwent wrth ymyl clogwyn; Tomen y Clawdd, Rhondda Cynon Taf, cyngor ar ddeunydd deongliadol yn y castell; Stalling Down, Y Bont Faen, Bro Morgannwg, cyngor ar anheddiad anghyfannedd canoloesol; Bryn, Nedd Port Talbot, cyngor yn ymwneud â darganfyddiad safle batri wrthawerynnau o'r Ail Ryfel Byd, sydd wedi'i gadw mewn cyflwr da; Cefn Morfudd, Nedd Port Talbot, cyngor i berchennog ar arwyddocâd llociau petryal; Tŷ Sger, Pen-y-bont, cyngor ar gadwraeth pwll yn wedi'i leinio â cherrig, sydd wedi'i gloddio.

Gwybodaeth a chymorth yn ymwneud â Chofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru

Parheid i ddarparu cyngor yn ymwneud â defnydd y Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Croesawodd yr Ymddiriedolaeth y *Guide to Good Practice on Using the Register of Landscape of Historic Interest in Wales in the Planning and Development Processes*.

Cyngor Cyffredinol i Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol ar amryw o faterion gan gynnwys polisïau cynllun strwythurol a lleol

Rhodddwyd cyngor o ran anghenion darpariaeth i anghenion archeolegol yng Nghynlluniau Datblygu Unedol. Rhodddwyd ymatebion manwl o ran Drafft Ymgynghorol Cyn-gyhoeddi Cynllun Datblygu Unedol Abertawe.

Cyngor Cyffredinol i awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol ar gynigion datblygu fel rhan o'r broses rheoli datblygiad.

Gweler isod YAMG 43.

Cyngor a, lle bo'n addas, ymweliadau yn gysylltiedig â gwaith Cynlluniau Grantiau Coedwigoedd ac ymgynghoriadau eraill â'r Awdurdod Coedwigaeth.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau cyngor archeolegol i'r Comisiwn Coedwigaeth. Derbynnir Cofrestr Cymynu a Phlannu yn wythnosol, gyda'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwybodaeth a chyngor ar ddiogelu buddiannau archeolegol fel rhan o brosiectau a gynhelir â chymorth grant a gweithredoedd coedwigaeth. Ymatebwyd i 54 ymgynghoriad Cynllun Grant Coedwigoedd yn ystod y flwyddyn, cynnydd o 50% ar yr ymgynghoriadau a wnaethpwyd yn 2002-3. Mewn rhai achosion, gwnaethpwyd ymweliadau â'r safle cyn ymateb, yn nodedig ym Machen Isaf, Casnewydd, er mwyn asesu'r effaith posib o blannu newydd ar yr anheddiad Rhufeinig.

Cyngor fel rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal fel y'i amlinellir yn nogfen Cyngor Cefn Gwlad Cymru "Trefniadau Cyswllt Amgylchedd Hanesyddol Tir Gofal ar gyfer Nodweddion Hanesyddol a Safleoedd Archeolegol"

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i roi cyngor ar y camau cyntaf o ran eu Cynllun Tir Gofal. Sefydlwyd perthynas weithio dda gyda Swyddogion Prosiect Tir Gofal sy'n

gweithio o swyddfeydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn y Fenni, yng Nghaerdydd ac yn Abertawe.

Darparu gwybodaeth a chyngor i ffermwyr ac i berchenogion tir eraill y tu allan i gynllun Tir Gofal.

Derbyniwyd ceisiadau am wybodaeth a chyngor gan ychydig o ffermwyr a pherchenogion tir, a rhoddwyd cyfrif ohonynt fel rhan o gofnod ymholiadau'r Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd.

Ymholiadau cychwynnol gan ddiwydiannau gwasanaethau, fel dŵr, trydan a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Yn y flwyddyn ariannol hon, trosglwyddwyd llawer o'r gwaith yn y maes hwn i'r prosiect Rheoli Datblygiad (YAMG 43).

Darparodd yr Ymddiriedolaeth gyngor i Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymwneud â Strategaethau Echdyniad Dalgylch ar gyfer De-ddwyrain Cymru. Yn gyffredinol, rydym wedi argymhell y gallai newidiadau yn lefelau dŵr afonydd a'r amgylchedd lleol effeithio ar ddsobarthiadau arbennig o safleoedd archeolegol. Argymhellid y dylid ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth ar bob un cynnig yn y dyfodol.

Gofynnodd Asiantaeth yr Amgylchedd i'r Ymddiriedolaeth ddarparu data Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd i'r Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch ardaloedd Abertawe a Llanelli. Oherwydd newidiadau yn yr hinsawdd a ffactorau amgylcheddol eraill, mae angen i'r prosiect hwn ragfynegi lefelau risg llifogydd yn y dyfodol o fewn cymoedd afonydd, ac asesu'r bygythiad posib i safleoedd archeolegol a chofadeiladau hynafol, gyda'r bwriad o ystyried penderfyniadau polisi hirdymor a rheolaeth gynaliadwy.

Cyswllt a chyngor i gyrff cadwraethol fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gynnal perthynas weithio dda gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Cadwodd yr Ymddiriedolaeth gysylltiad agos â chyrrff ac unigolion eraill sydd â chyfrifoldeb am, a diddordebau mewn, materion amgylcheddau hanesyddol yn genedlaethol ac yn lleol.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gysylltu yn enwedig â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol o ran eu hail arolwg o nodweddion archeolegol ar dir sydd yn eu meddiant ar benrhyn Gŵyr . Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth gymorth iddynt yn y diweddaru, drwy ddarparu gwybodaeth o'r Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd, y llyfrgell a ffeiliau papur cofnodion. Yn dilyn yr ail arolwg, dychwelodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ddata wedi'i ddiweddaru i'w gymathu â'r Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd.

Gweithiodd yr Ymddiriedolaeth yn agos â Chyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd yn ymwneud â datblygiad posib Gwarchodfa Natur Gwent yn y dyfodol, a rhagwelir y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cael ei chynnwys nid yn unig o safbwynt ymgynghorol ar geisiadau cynllunio ond hefyd yn natblygiad deunydd addysgiadol ar gyfer canolfan ymwelwyr ar y safle. Efallai y rhydd hyn gyfle i gyflwyno gwybodaeth am archaeoleg Lefelau Gwent o'r safle ei hun.

Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth sylwadau hefyd ar Ddrafft Cynllun Rheolaeth AONB Gŵyr – *State of the AONB*.

Monitro effeithiolrwydd Cyfarwyddyd Cynllunio (Cymru) a Chylchlythyr 60/96 – Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg

Mae'r ddwy ddogfen wedi eu hymgorffori yn llawn ac yn effeithiol yn ymarfer a pholisi cynllunio yn Ne Ddwyrain Cymru ac maent yn gyfeiriol yng Nghynlluniau Lleol. Mae llawer o gyngor arall ar yr angen i ystyried effeithiau datblygiad ar yr Amgylchedd Hanesyddol (Rheoliadau EIA (gw. Cylchlythyr 11/99; Cylchlythyr 61/96), a'r mesurau y gellid eu defnyddio (e.e. Canllaw ASIDOHL), ac mae'n bwysig nad yw cyngor o'r math hwn yn cael ei ystyried ar wahân i wybodaeth arall, lle bo hynny'n briodol. Efallai bydd Prawf Ymholiad Cynllunio yn gyfrwng pwysig i ymgorffori egwyddorion y Cylchlythyrau ac i fesur eu heffeithiolrwydd.

Cyngor dilynol a chefnogaeth hirdymor i Gymru gyfan (eglwysi, arfordirol, a.y.b.) a phrosiectau eraill yr Ymddiriedolaeth

Eglwysi

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gael cynrychiolydd ar Bwyllgor Cyngori Esgobaethol Abertawe ac Aberhonddu (DAC), ac ar Bwyllgor Adeilad Eglwys Gadeiriol Aberhonddu. Darparai mynychu'r cyfarfodydd hyn gyfrwng nid yn unig i hyrwyddo amcanion archaeoleg eglwysig ond hefyd y cyfle i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i roi sylwadau ar geisiadau unigol am ganiatâd y gyfadran ac i wneud nifer cynyddol o ymweliadau i eglwysi er mwyn trafod a datrys problemau yn ymwneud â materion penodol.

Ym mis Hydref, trefnodd a chadeiriodd yr Ymddiriedolaeth gyfarfod blynyddol Pwyllgor Ymgynghorol Esgobaethol archeolegwyr yng Nghymru yng Nghanolfan yr Eglwys Gadeiriol, Aberhonddu. Roedd y drafodaeth yn ymwneud â'r trefniadau o ddefnyddio adnoddau a'r mater o gysondeb yn y cyngor a roddwn i'n pwyllgorau priodol.

Arfordirol

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd presenoldeb ac ymateb i Grŵp Peirianeg Arfordirol Bae Abertawe a Bae Caerfyrddin, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cwblhau adroddiadau proforma iddo yn gyson. Rydym yn enwedig o awyddus i gael ein cynnwys yn y broses o fonitro'r arfordir, er enghraifft tynnu awyrluniau a all ddarganfod ardaloedd o fawn arfordirol sydd newydd ddod i'r amlwg a deunydd archeolegol, a dod â newidiadau o ran ffurfwedd arfordirol sydd o ganlyniad i erydiad a lefelau'r môr yn codi i'r amlwg. Gyda'r wybodaeth ragorach hon, dylai fod yn bosib rhagfynegi bygythiadau i safleoedd archeolegol ar yr arfordir a chynnig mesurau i leihau'r niwed, er enghraifft drwy amddiffynfeydd morol neu gloddio.

Lledaeniad ehangach canlyniad prosiectau a gyllidir gan CADW, gan gynnwys y wefan.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i gynnal arddangosfeydd mewn safleoedd amrywiol, rhoi darlithoedd a derbyn myfyrwyr a myfyrwyr ar leoliad o'r ysgolion.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddefnyddio ei gwefan (www.YAMG.org.uk <<http://www.YAMG.org.uk>>) er mwyn darparu gwybodaeth ar archaeoleg ranbarthol; diweddarwyd yr adran yn ymwneud â phrosiectau a ariennir gan CADW, gan gynnwys gwybodaeth ar nodweddion tirwedd Comin Gelligaer, Caerffili. Yn dilyn hyn, cynhyrchwyd taflen gennym ar Dirwedd Hanesyddol Comin Gelligaer.

Sicrhaodd yr Ymddiriedolaeth bod y daflen a'r arddangosfa "Archaeoleg a'ch cais cynllunio" wedi'i darparu i Awdurdodau Unedol Rhanbarthol yn eu hadeiladau priodol. Bydd yr wybodaeth a'r arddangosfa yn gymorth i swyddogion cynllunio a'r rhai sy'n bwriadu gwneud cais am gynllunio am ei bod yn pwysleisio'r pwysigrwydd o fynd i'r afael â materion archeolegol yn gynnar yn y broses gynllunio.

Cwrddodd yr Ymddiriedolaeth â chynrychiolydd Balchder Bro - Pride of Place, Menter Treftadaeth Lleol yng Nghymru, yn ymwneud â'n harweiniad proffesiynol a'n hymnglymiad â'r cynllun, a'i fwriad yw hyrwyddo diddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol ar lefel gymunedol.

Yn ystod y flwyddyn, paratowyd datganiadau i'r wasg ar ddarganfyddiadau Rhufeinig yng Nghasllwchwr a'r cloddiadau canoloesol yn Stryd Wind (Wind Street) yn Abertawe. Parhawyd i roi gwybodaeth i'r cyfryngau mewn perthnasedd â, neu mewn paratoad ar gyfer rhaglenni teledu, er enghraifft 'Extreme Archaeology'.

Mewn perthynas â Diwrnod Archaeoleg Cenedlaethol Cyngor Archaeoleg Prydain (19 Gorffennaf 2004), trefnodd yr Ymddiriedolaeth Ddiwrnod Agored yn swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth. Cynhwysai hyn arddangosiadau ymarferol (gwneud crochenwaith, coginio Rhufeinig), gweithgareddau rhyngweithiol (Ymholiad CCS, dysgu drwy chwarae), a gwaith adnabod (Henebion Symudol). Yn hwyrach yn yr haf cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth arddangosfa â chriw yn Sioe Gŵyr, a roddodd ffordd dda o gyrraedd y gymuned ffermio a chymunedau eraill yn lleol.

Yng Ngŵyr, derbyniodd Ymddiriedolaeth Neuadd y Gymuned Llanrhidian grant gan Lywodraeth y Cynulliad, er mwyn datblygu Neuadd yr Eglwys ymhellach yn ganolfan amlbwrpas ar gyfer datblygiad cymunedol i wasanaethu ardal Gogledd Gŵyr. Trafododd staff y posibilrwydd o ddarparu gwybodaeth a chymorth ar gyfer arddangosfa yn rhoi dehongliad o dirwedd, dreftadaeth a diwylliant Gogledd Gŵyr, a hyrwyddo 'Twristiaeth Werdd' gydag aelodau o Grŵp Hanes Lleol Llanrhidian.

Rhan fawr o ymlyniad a chynllun estyn yr Ymddiriedolaeth yw trefniant Fforwm Treftadaeth Rhanbarthol yn flynyddol gyda'r deuddeg Awdurdod Unedol. Cynhaliwyd cyfarfod 2003-2004 gan Gyngor Tref a Sir Abertawe. Trafodwyd ystod eang o bynciau pwysig gyda'r Ymddiriedolaeth, gan bwysleisio'r angen i Awdurdodau Unedol gymryd agwedd mwy cyfannol o'u rôl allweddol yn yr amgylchfyd hanesyddol.

Ymateb i Ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrrff eraill ar gynigion sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.

Fel rhan o'n cylch gwaith treftadaeth ranbarthol, ymgynghorir â'r Ymddiriedolaeth ar amrywiaeth eang o bynciau. Yn benodol, ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i Arolwg Llywodraeth y Cynulliad o'r Amgylchfyd Hanesyddol yng Nghymru, a gafodd groeso cynnes gennym. Yn ystod y flwyddyn, rhoesom ymateb ysgrifenedig i'r dogfennau canlynol:

Oddi wrth	Teitl y ddogfen
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Arolwg o'r Amgylchfyd Hanesyddol yng Nghymru. Dogfen Ymgynghorol.
DEFRA	Ymarfer Ymgynghorol ar ddatblygu crynodeb o safonau organig y DU
CCC	CROW – Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer rheoliadau
CCW	Ffermio ac Amgylchedd Cymru – ymgynghoriad ar ddulliau newydd.

	Cynllun lefel ddechreuol amaethyddol amgylcheddol i Gymru
CCC	Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad (CROW) – Symud rhwystrau o'r hawliau tramwy cyhoeddus.
CCW	CROW Map Drafft – Cymoedd De-ddwyrain Cymru, Bro Morgannwg, Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy
CCW	CROW – Map dros dro – Gorllewin Bannau Brycheiniog, a De Sir Frycheiniog
C&C o Gaerdydd	Arolwg Strategaeth Cefn Gwlad 2003 - Dogfen ymgynghorol
Sue Essex AC	Pobl, Lleuedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru
EA	Dogfen Ymgynghorol Cynllun Gweithredu Eog Afon Taf ac Afon Elai
DEFRA	Papur Ymgynghorol: Defnydd Cerbydau sy'n Cael eu Gyrru yn Fecanyddol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
EA	Taflen Godi Ymwybyddiaeth o Strategaeth Rheoli Echdyniad Dalgylch Ddawan a Llangatwg
Yr Arolygiaeth Gynllunio	Apeliadau yn ymwneud â CROW Adran 6
C&C Abertawe	Rheolwr yr AONB. Cyflwr yr AONB
Comisiwn Coedwigaeth	Coedwigoedd gwell i Gymru
Partneriaethau Egri Adnewyddadwy	Pŵer y gwynt yn Ne Cymru – Ymgynghoriad strategol

Ymdrin ag Ymgynghoriadau sy'n gysylltiedig â Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad.

Drwy gydol y flwyddyn rydym wedi ymateb i Fapiau Drafft Mynediad i Gefn Gwlad nifer o ardaloedd ucheldirol yn Ne-ddwyrain Cymru, a rhagwelwn y byddwn yn cael ein cynnwys ymhellach mewn materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol wrth i'r prosiect ddatblygu cynlluniau pendant i gwrdd â'u hamcanion.

Fel rhan o'r prosiect hwn, cynrychiolodd yr Ymddiriedolaeth Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymreig eraill mewn Cynhadledd Beiciau Modur Oddi ar yr Heol ym Merthyr Tudful. Gan fod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn pryderu am beth amser ynghylch y difrod sy'n cael ei achosi i henebion yng nghefn gwlad, fel heol Rufeinig Sarn Helen yng Nghastell Nedd Port Talbot, defnyddid yr achlysur i hyrwyddo buddiannau a phryderon ynghylch amgylcheddau hanesyddol i gynulleidfa ehangach.

Ymdrin ag ymgynghoriadau sy'n gysylltiedig â Darpariaethau Cyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol i Dir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol.

Yn ystod y flwyddyn dechreuodd yr Ymddiriedolaeth dderbyn ymgynghoriadau mewn cysylltiad ag asesu amgylcheddol ar gyfer cynlluniau i newid arferion ffermio. Cyflwynwyd ymatebion i Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyngor curadurol yn gysylltiedig â'r amgylchedd morol


Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydweithio'n agos gyda CADW er mwyn sicrhau cysondeb cyngor ar y ceisiadau sydd y tu allan i'r broses gynllunio arferol nad oes methodoleg broffesiynol gydnabyddedig na sefydledig er mwyn ymateb iddynt ar hyn o bryd. Gwnaethpwyd ymatebion penodol o ran fferm wynt fôr Scarweather ger Porthcawl, Pen-y-bont ac echdyniad agreg yn Nhiroedd y Gogledd Canol (North Middle Grounds), Dyfnder Gogledd Bryste a Thraethau Bedwyn ym moryd afon Hafren.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth â'i rôl o fewn Cymdeithas Awdurdodau Perthnasol Moryd Afon Hafren (ASERA) yn ystod y flwyddyn, a chroesawodd ei dogfen gysail ar gyfer rheolaeth safle morol Ewropeaidd Moryd Afon Hafren.

YAMG 43 Gwasanaethau Cynllunio Archaeoleg Ranbarthol

Ystadegau Cynllunio 2003–2004 (gweler Atodiad 1)

Gofynnai'r gwasanaethau cynllunio archeolegol a ddarperir ar ran CADW i'r Ymddiriedolaeth gyflawni asesiad dechreuol o holl geisiadau cynllunio'r rhanbarth a rhoi gwybod i'r awdurdodau cynllunio am gyfyngiadau archeolegol ar gynigion, gan roi gwybodaeth ac awgrymiadau pendant ar y dull gorau o weithredu er mwyn diogelu buddion archeolegol wrth ganiatáu datblygiad a ganiateir ar yr un pryd. Wedyn, gydag adnoddau cyfunol wedi'u darparu gan bob un o'r deuddeg awdurdod rhanbarthol, darparodd yr Adran Rheoli Datblygiad wasanaethau manwl pellach, er enghraifft darparu cyfarwyddyd archeolegol ar gyfer asesiadau cyn cymryd penderfyniad, gan gymeradwyo manylebau manwl sy'n cael eu cyflwyno gan ddatblygwyr a monitro'r gwaith archeolegol angenrheidiol o'r dechreuadau a gwaith maes o gynhyrchu'n adroddiad terfynol. Mae'r Adran hefyd wedi bod yn ymwneud â nifer o apeliadau cynllunio yn darparu gwybodaeth a chyngor ysgrifenedig i Arolygiaeth Gynllunio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.



Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi adrodd ar gynnydd sylweddol yn y nifer o geisiadau cynllunio sy'n cael eu derbyn gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI/LPAs) yn ne-ddwyrain Cymru, a'r cynnydd cyfatebol yn llwyth gwaith y Gwasanaeth Rheoli Datblygiad. Parhaodd y duedd hon yn ystod y flwyddyn, gyda chynnydd o tua 2,000 cais cofrestredig yn golygu, am y tro cyntaf erioed, fod mwy na 20,000. Mae'r cynnydd hwn, a'r angen i ymateb i'r ACLI (LPAs) o fewn 21 diwrnod o dderbyn ymgynghoriad, yn gosod straen sylweddol ar y gwasanaeth, sy'n parhau i gael ei gefnogi yn anghyfartal am y gwaith hwn, o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru, ac nid yw wedi gweld cynnydd cyfatebol yng nghymorth grantiau er mwyn gwneud yn iawn am y cynnydd yn y llwyth gwaith. Gwelir dadansoddiad o'r ceisiadau a'r lefelau ymateb yn ôl awdurdod a'r math o ymateb fel Atodiad 1 i'r adolygiad hwn.

Yn ôl cytundeb â CADW mae prosesu ymholiadau cychwynnol gan Ymgymerywyr Statudol yn awr yn fwy cywir yn dod yn rhan o'r Prosiect Rheoli Datblygiad. Yn gyffredinol mae ein perthynas weithio â'r Ymgymerywyr Statudol wedi gwella llawer, ac yn awr mae gwybodaeth yn cael ei darparu, gan gynnwys rhaglenni gwaith blynyddol. Eleni, darparodd yr Ymddiriedolaeth 349 ymgynghoriad gan y

Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda nwy yn cyfrif am 258, Dŵr Cymru am 63, Trydan am 14 ac Asiantaeth yr Amgylchedd 14. Gwnaethpwyd argymelliadau ar gyfer 11 asesiad a mantoliad, a 28 gorchwyl gwyllo o ganlyniad i'r ymholiadau hyn.

Gwnaeth Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Lloegr a Chymru) 1999 nifer o newidiadau i Asesiadau Effaith Amgylcheddol (AEA/EIA) a chyflwynodd dulliau gweithredu newydd, yn fwyaf nodedig barn sgrinio a chwmpasu. Gwneir barn sgrinio er mwyn penderfynu a oes angen AEA/EIA neu beidio, tra bod barn gwmpasu yn egluro'r materion bydd angen eu trafod gan yr AEA/EIA. Mae nifer y barnau hyn y gofynnir amdanynt yn Ne-ddwyrain Cymru wedi bod yn araf gynyddu ers cyflwyno'r Rheoliadau, a chyhoeddi Cylchlythyr 11/99 Asesiad Effaith Amgylcheddol y Swyddfa Gymreig i gyd-fynd â hwy. Yn 2003-4 roedd angen 15 barn gwmpasu a 4 barn sgrinio. Tra bod y rhain yn ymddangos yn niferoedd cymharol fach, mae angen cryn dipyn o ymchwil ac ystyriaeth ar yr ymatebion cyn rhoi cyngor curadurol.

Yn amlwg, ac yn arwyddocaol, cynnyrch archeolegol terfynol y broses rheoli datblygiad yw naill ai cadwraeth adnoddau archeolegol pwysig yn y fan a'r lle ar gyfer budd y cyhoedd yn y dyfodol neu gadwraeth drwy gofnod – er enghraifft cynhyrchu a chyflwyno adroddiadau ar yr adnodd a gloddiwyd. Un mesur yw'r wybodaeth a'r adroddiadau ar gloddio fel y cyhoeddwyd gan Gyngor ar gyfer Archaeoleg Prydain, Cymru, yn *Archaeology in Wales*, bod angen lleiafswm o gynnyrch fel arfer. Ar gyfer y flwyddyn 2001, cynhwysid yn y cyhoeddiad hwnnw 112 adroddiad ar waith, sydd eu hangen ac wedi'u rheoli gan brosesau rheoli datblygiad yn Ne-ddwyrain Cymru. Yn 2002 cododd y ffigur i 176. Ym mron bob achos byddai adroddiadau gwaelodol 'llynyddiaeth lwyd' wedi eu cyflwyno i'r Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd Rhanbarthol.

YAMG 61 Nodweddu Tirwedd Hanesyddol

Cwm Clydach

Cyflawnwyd Nodweddu Tirwedd Hanesyddol ar gyfer Tirwedd Hanesyddol Arbennig Cwm Clydach. Roedd y gwaith yn cynnwys adnabod a disgrifio ardaloedd o gymeriad arbennig o fewn yr ardal ar y Gofrestr, paratoi awgrymiadau ar gyfer eu gwarchod a'u gwella, creu cyflwyniad hanesyddol a thematig, creu mapiau a lluniau o ardaloedd nodweddu arbennig.

Dilynodd y broses nodweddu ar gyfer Cwm Clydach y fethodoleg sydd wedi'i sefydlu eisoes yn bennaf, gan ddibynnu ar chwiliadau cychwynnol Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd a chwiliadau desg dogfennol, gan gynnwys atchweliadau map cychwynnol a ddaeth o hyd i leiafswm o 176 o gofrestriadau Cofnod Safleoedd a Chofadeiladau (81 Cofnod Cofadeiladau Cenedlaethol; 40 Adeilad Rhestredig) mewn ardal astudiaeth ychydig yn ehangach na'r ardal sy'n ymddangos ar y gofrestr.

Darganfuwyd y gellid rhannu'r dirwedd yn naw ardal nodweddu, ar hyd llinellau trafndiaeth ddiwydiannol, prosesu, ac ardaloedd anheddiad, h.y. y coridorau trafndiaeth a chyfathrebu (heol, cledrau, tramffordd a rheilffordd), y gweithfeydd haearn eu hunain, ardaloedd diwydiannol ac ardaloedd anheddiad eraill, a'r ardaloedd sydd wedi goroesi caeau mwynol a chwarrau carreg galch.



Paratowyd proformas ar gyfer pob ardal nodweddu unigol, a chynhwysai nodiadau ymweliadau â'r maes.

Cymerodd staff o CADW rhan yn yr ymweliad â'r maes, a rhoesant gymorth penodol gyda'r adolygiad o nodweddion treftadaeth bensaernïol yr ardal.

Cynyddwyd y broses gyffredinol o nodweddu'r dirwedd gan ymchwil ddogfennol fanylach ac atchweliad map gyda'r dasg benodol o nodweddu tirwedd drafnidiaeth a diwydiannol yr ardal. Gellid sylwi bod y rhan fwyaf o nodweddion y dirwedd yn bodoli erbyn yn hwyr yn y 18fed/gynnar yn y 19eg ganrif, gydag ychwanegiadau, yn gyffredinol, yn atgyfnerthu nodweddion a fodolai eisoes. Roedd y datblygiad trefol wedi digwydd bron i gyd erbyn cyfnod arolwg y Degwm, ac fe'u dangosir yn fanwl ar y mapiau Arolwg Ordnans (OS) diweddarach. Roedd llawer o'r datblygiad diwydiannol hefyd wedi digwydd erbyn cyhoeddi lluniau cynnar Tirfesurwyr OS o chwarter cyntaf y 19eg ganrif.

Yn ystod yr 20fed ganrif, y prif ddatblygiad, heblaw am adeiladu Ffordd y Blaenau o fewn cyfyngiadau'r ceunant, oedd adferiad cyfan y gweithiau i'r de ar Fynydd Rheinallt a Thwyn-blaen-

nant.
Ychwanegodd awyrl



Gweddillion gwaith haearn Clydach

Yr olygfa dros Cwm Clydach o ogledd cwar calchfaen Blackrock (ANTH 004b) tuag ar y cwarrau ar Fryn Gilwern

uniau at y ddealltwriaeth o batrymau a gwead y dirwedd ac arweiniodd at adolygu pellach.

Roedd yr ymchwil gefndirol a wnaethpwyd yn sylfaenol i'r gwaith nodweddu, a chaniataodd inni ddeall cymhlethdod a chyfanrwydd tirwedd ddiwydiannol yr ardal, sy'n cynrychioli microcosm pwysig a chyfan i raddau helaeth, o weithiau diwydiannol yn gysylltiedig â'r diwydiant haearn, cwarrau, ffwrneisi, gefeiliau, gweithfeydd haearn, cysylltiadau trafndiaeth ac anheddiad diwydiannol. Edrychwyd ar y casgliadau o archifau sydd yn Swyddfa Cofnodion Gwent ac yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth; ac edrychwyd hefyd ar ffynonellau eilradd yn y sefydliad diwethaf, yn ogystal ag yn llyfrgelloedd Caerdydd ac Abertawe, a llyfrgelloedd Prifysgol Cymru, Abertawe a Chaerdydd. Cynhwysai deunydd ffynonellau cynradd y pedwar argraffiad o fapiau OS 6 modfedd ar gyfer plwyfi Llanelli, a Llanfoist Fawr, ynghyd â mapiau a chatalogau ystâd, a chatalogau gwerthiant. Mae cronfeydd data'r Llyfrgell Genedlaethol yn rhoi gwybodaeth ar yr ystâd a mapiau eraill sy'n berthnasol i'r ddealltwriaeth o ddatblygiad anheddiad trafndiaeth/diwydiannol ac anheddiad diwydiannol yr ardal.

Ffurfiar nodweddion trefol elfen gymharol fechan o'r astudiaeth, fodd bynnag, roedd yr astudiaethau morffolegol trefol a ddefnyddid ar gyfer yr astudiaeth flaenorol o'r Rhondda yn ddefnyddiol, yn enwedig astudiaethau daearyddol y 1960au (Astudiaeth Forffolegol a Swyddogaethol Wayne KD Davies o leoedd canolig fel y'u cymhwysir i anheddau'r Rhondda ac astudiaeth PN Jones o ffurf, strwythur a natur anheddu glofaol yn Ne Cymru).

Mae copïau o'r adroddiad wedi eu rhoi i ofal CADW, y Comisiwn Brenhinol ar Gofadeiladau Hynafol a Hanesyddol Cymru, cynhaliwyd y Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd Rhanbarthol gan yr Ymddiriedolaeth a'r Awdurdodau Unedol eraill.

Cyfeiriadau

Davies, WKD, 1967 'Centrality and the central place heirarchy'. *Urban Studies*, 4, 61-79.

Davies, WKD, 1968 'The morphology of central places: a case study', *Ann. Assoc.*

Am. Geogr. **58**, 91-110.

Jones, PN, 1969, Colliery settlement in the South Wales Coalfield, 1850 to 1926. Hull.

Lefelau Gwent

Ymgwymerwyd â Nodweddu Tirwedd Hanesyddol Lefelau Gwent gan Dr S Rippon ar ran CADW, cyn dechrau ar brif raglen nodweddu tirwedd hanesyddol fel y'i ymgwymerir gan Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru. Er mwyn gosod yr wybodaeth hon ar y rhyngwyd mewn ffordd debyg i'r tirweddau eraill a nodweddir, ailedrychwyd ar destun Dr Rippon a'i ail-weithio, gyda pheth uwchraddio a diweddarau. Cytunodd CADW a Dr Rippon ar y testun diwygiedig ac fe'i anfonwyd at CADW i'w gyfieithu. Dewiswyd deunydd i ddarlunio pob disgrifiad o ardal nodwedd a fformatiwyd hwn a'r testun er mwyn ei lwytho i fyny ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

YAMG 67 Tir Gofal

Yn unol â'n cytundeb â CADW, ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i geisiadau a raddiwyd yn llwyddiannus (Cam HE1) ar gyfer cynllun Tir Gofal (Blwyddyn 3). Yn ystod y flwyddyn, proseswyd 100 o geisiadau gan yr Ymddiriedolaeth. Rhoddwyd gwybodaeth a chyingor manwl i Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer pob cais, a gwnaethpwyd awgrymiadau ar sail pa un ai oedd angen ymweliad â'r safle archeolegol er mwyn asesu'r safleoedd a'r tirweddau.

YAMG 72 Safleoedd Angladdol a Defodol Cynhanesyddol

Cynhwysai'r tasgau ar gyfer y flwyddyn 2003-2004 greu dau adroddiad ar gasgliadau'r arolwg hwn, un ar gyfer Morgannwg ac un ar gyfer Gwent, a chyflwyniad mwy cyffredinol ar y pwnc i'w gynnwys ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

Mae gan y ddau adroddiad academiaidd yr un fformat. Ar ôl adran o gyflwyniad byr ar fethodoleg a thopograffeg, gwneir arolwg o'r cofadeiladau yn ôl eu cyfnod a'u math, ac fe'u hystyrir hefyd mewn perthynas â'r ardaloedd nodwedd y rhannwyd pob sir iddynt (saith yn achos Morgannwg, a chwech yn achos Gwent). Ceir yn yr erthygl ar Went, a anelir at y *Monmouthshire Antiquary*, fwy o wybodaeth gefndirol yn ymwneud â phob cyfnod, gan ei fod yn gydnabyddedig efallai nad oes gan ganran sylweddol o'u darllenwyr lawer o wybodaeth flaenorol o faterion cynhanesyddol. Gan fod yr erthygl ym Morgannwg wedi'i anelu at *Archaeology in Wales* nid ystyriwyd cynnwys cefndir tebyg yn angenrheidiol. Er bod crynodeb byr o fanylion adeiladwaith y mathau gwahanol o gofadeiladau, sy'n dod yn bennaf o ychydig enghreifftiau a gloddiwyd sydd wedi eu cyhoeddi'n gywir, mae'r prif bwyslais ar eu lleoliad a dosbarthiad cymharol y mathu gwahanol. Mae'r adrannau sy'n cloi yn ystyried y cofadeiladau o fewn y dirwedd. Mae atodiadau yn rhoi manylion o'r eirfa a ddefnyddid ar gyfer y cynllun a manylion am yr ardaloedd nodwedd.



Yn dilyn darganfod nifer sylweddol o safleoedd a fethwyd am resymau technegol o arolwg Blwyddyn 1, ac eraill a ddarganfyddid eisoes, mae'r adroddiadau hyn wedi eu gohirio nes bod mwy o waith maes wedi'i gyflawni.

Amcan tudalennau'r wefan oedd cyflwyno canllaw yn amlinellu safleoedd angladdol a defodol cynhanesyddol yn Ne-ddwyrain Cymru mewn iaith nad yw'n dechnegol, ac er mwyn rhoi detholiad o'r lluniau gorau a dynnwyd yn ystod y prosiect, ynghyd ag ychydig o ffynonellau eraill, wedi'u defnyddio naill ai am eu bod yn dangos manylion eraill (fel cloddio) neu oherwydd bod amgylchiadau tywydd gwahanol wedi creu gwell llun. Bydd dolen gyswllt ar gael, fodd bynnag, er mwyn rhoi manylion ar y fethodoleg a sut i ymwelwyr sydd â diddordeb proffesiynol neu academaidd chwilio'r gronfa ddata. Mae'r tudalennau agoriadol yn rhoi cefndir i'r mathau gwahanol o gofodeiladau sy'n dyddio o'r Oes Neolithig a'r Oes Efydd, a'u hadeiladwaith; labelwyd y lluniau gwahanol a ddefnyddid i'w darlunio er mwyn dangos yr elfennau gwahanol sydd yno. Bydd dolenni cyswllt yn mynd â'r ymwelydd at dudalennau pellach ar feddrodau siambrog, meini hirion, cylchoedd cerrig a chrugiau a charneddau crwn. Mae'r rhain yn cynnwys lluniau o gofodeiladau dewisedig â sylwebaeth fer ar bob un; ceir mwy nag un llun er mwyn dangos y cofadeiladau mwy cymhleth.

YAMG 73 Aneddiadau Eglwysig y Canol Oesoedd Cynnar

Roedd rhaglen waith y flwyddyn 2003-2004 yn cynnwys archwiliad mwy manwl o'r safleoedd a restrwyd yn adroddiad Blwyddyn 1 fel rhai â dangosyddion Gradd A a B, a'r rhai a ddosbarthwyd fel rhai D (ag angen gwaith pellach). Hepgorwyd y rhai lle mae'n ymddangos y cyfyngid gweithgaredd i ardal fynwent bresennol eglwys sy'n dal i gael ei defnyddio mewn ffordd eglwysig, a'r rhai mae'n hysbys iddynt gael eu llwyr ddinistrio. Roedd 44 safle i gyd, ac un pellach, St Arvan, a ychwanegwyd pan dynnwyd sylw at y darganfyddiadau Canoloesol Cynnar y daethpwyd o hyd iddynt gan ddatgelydd metel yng nghyffiniau'r eglwys yn ddiweddar, ac nad ychwanegwyd at y Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd.

Ymgwymerwyd â'r ymchwil bellach drwy amrywiaeth o ffurfiau, a'r prif rai oedd chwiliadau awyrluniau, atchweliad map ac ymweliad â'r safle. Daethpwyd o hyd i dri safle ar hugain a allai elwa o chwiliad awyrluniau. Cafwyd canlyniadau cymysg. Ni ddatgelodd yr awyrluniau unrhyw dystiolaeth o gwbl ar tua hanner ohonynt. O ran y safleoedd oedd â chanlyniadau posib, dangosai'r rhan fwyaf ohonynt lociau cromlinog posib y gellid eu gweld ar y mapiau hefyd, ond roedd yn fwy amlwg o'r awyr eu bod o bosib yn arwyddocaol. Daeth y canlyniadau gorau o Lanefrddyl, a ddangosodd dystiolaeth o loc ffosog cromlinog a ymddangosodd fel ôl cnwd ar lun o 1947, Pontymister, lle darganfuwyd lloc bach petryal â chorneli crwn, a'r Hywig Fach, lle dangoswyd nodweddion cromlinog a nodweddion petryal, a allai fod yn adeiladau



o gyfnod y Rhufeiniaid, mewn cae cyfagos â safle traddodiadol Capel Sant Wormet. Penderfynwyd bod atchweliad map yn addas ar gyfer pedwar safle arall. Roedd dau o'r rhain yn enwedig o lwyddiannus. Canlyniad un oedd canfod, bron yn sicr, ffynnon sanctaidd a oedd ar goll, a gysylltid â Chofadail Cristnogol Cynnar, ar fferm a enwid ar fap y Degwm fel Llanylltyd (Ffynnon Illtyd ar argraffiad cyntaf map 6" yr OS) yng

Nghwm Pelenna. Daeth yr ail o hyd i'r ardal yng Nghaerllion lle cloddiwyd yng nghanol y 19G ar safle lle y credid y bu Capel St Aaron yn sefyll. Sefydlwyd ei fod o fewn ardal un o'r mynwentydd Rhufeinig y gwyddid amdani, a hefyd o fewn bloc mawr o lastir.

Cymysg hefyd oedd canlyniadau'r ymweliadau â'r safleoedd. Ychydig iawn oedd yno i'w weld yn gyffredinol, ac ni lwyddodd rhai o'r ymweliadau â'r safleoedd ddatgelu unrhyw wybodaeth ddefnyddiol o gwbl, naill ai oherwydd nad oedd yn ymddangos fod dim wedi goroesi, neu oherwydd bod gorchudd y cnydau ac amgylchiadau llystyfiant eraill yn anaddas. Roedd arwyddion amwys mewn safleoedd eraill, a allai fod yn elfennau o'r cyfnod Canoloesol Cynnar o oresgyniad, ond nid oedd hyn yn sicr mewn unrhyw fodd; nid oedd unrhyw dystiolaeth ddiamwys. Ym Merthyr Green nodwyd bod lloc clawdd pridd o amgylch rhan o ardal y faenor fwy diweddar, o nodwyd nodweddion llociau gwrthglawdd posib yn Llyngoed, Coedcernyw, Gellieithrym, Glyneathrim, Llandeilo Talybont, Llanfaenor, Machen Isaf, Maerun, St y Null a Threagaer, y rhan fwyaf ohonynt wedi para hyd heddiw fel cloddiau perthi. Ym Mhwl Meurig, darganfuwyd safle posib ar gyfer y capel Canoloesol y gwyddid amdano (ac felly o bosib y safle eglwysig Canoloesol Cynnar). Yng Nglyneathrym, nodwyd dau dwmpath caregog, a allai fod yn adeiladau, a safai un ohonynt oddi mewn i'r amrywiad gorweddiad ar gyfer eglwysi a nodwyd yn ystod yr Arolwg Eglwysi Hanesyddol.

YAMG 75 Ficsau a Ffyrd Rhufeinig

Cynhwysai'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn 2003-2004 arolwg geoffisegol o ficsau milwrol mewn tri safle: Gelligaer, Castell Nedd a Bryn Biga, a chloddio rhan o'r ardal a arolygwyd ym Mryn Biga.

Gelligaer

Canolbwyntiodd yr arolwg yng Ngelligaer ar yr elfennau o'r safle na wyddys llawer amdanynt, sef y gaer bren ('Gelligaer I', yr ystyrir yn gyffredinol ei bod yn dyddio o'r cyfnod Fflaidd) a thir cyfagos. Ni ellid cael caniatâd i weithio mewn rhai ardaloedd: o ganlyniad roedd natur y gweithgaredd yn rhan gogledd-orllewinol Gelligaer I a thu hwnt i'w welydd i'r cyfeiriad hwnnw yn parhau i fod yn aneglur. Yr amcanion yn yr ardal a arolygwyd oedd dod o hyd i: union safle amddiffynfeydd Gelligaer I, a amcangyfrifid eu bod yn dilyn olion gwan gwrthgloddiau sydd wedi eu tynnu yn amrywiol ar fapiau blaenorol; a yw ficsau y gaer gerrig diweddarach (Gelligaer II, wedi'i dyddio gan arysgrif i Trajan) yn ymestyn i'r gogledd-orllewin mewn i ardal yr amddiffynfeydd pren darfodedig; ac a oes strwythurau Rhufeinig yn gorwedd ar ben y tir sy'n cwmpo i'r gogledd-ddwyrain o Gelligaer I, yn yr ardal nad yw'n rhestredig ar hyn o bryd.

Mae'r ffosydd dwbl o gaer Gelligaer I wedi eu darlunio yn glir gan geoffiseg ar ochrau'r de-ddwyrain a'r de-orllewin, ond nid oedd lleoliad yr amddiffynfeydd i'r gogledd-ddwyrain yn amlwg. Gellid gweld pyrth y de-ddwyrain a'r de-orllewin, a dehonglwyd ardal frasffurf y tu ôl iddynt fel rhagfur. Tu fewn i'r gaer roedd tystiolaeth o adeiladwaith, er ei bod hi'n anodd dod o hyd i fanylion unrhyw adeilad unigol. Nid oedd arwyddion amlwg o ddefnydd y tir oddi mewn i'r amddiffynfeydd pren yn ystod cyfnod y gaer Trajanaidd (*h.y.* ymgorfforiad o fewn y ficsau diweddarach). Yn yr ardal gyfyngedig rhwng amddiffynfeydd Gelligaer I a'r gaer Trajanaidd, fodd bynnag, roedd tystiolaeth glir o weithgaredd. Arweiniai'r heol allan o Gelligaer I o borth y de-ddwyrain: roedd anomaleddau ar bob ochr, ond mae'n aneglur i beth y maent yn

perthyn. Ar ochr ogledd-orllewinol Gelligaer I, dehonglwyd anomaleddau magnetaidd cryf fel adeiladau, a chredid mai baddondy oedd un ohonynt.

Bryn Biga

Canolbwyntiodd y gwaith ym Mryn Biga ar dir yn union i'r de o'r amddiffynfeydd, yn gyfagos i'r tir a arolygwyd gan geoffiseg yn 1973, a lle y profodd cloddi cyfyngedig yn 1994 bod heol ddynesu yno, ac awgrymu bod nodweddion eraill yno hefyd.

Fel y rhagwelid, cafwyd dyluniadau da o ffosydd terfyn heol ddynesu wreiddiol y gaer, a'r heol a ddaeth yn ei lle, a oedd yn fwy cul. Y darganfyddiad mwyaf arwyddocaol oedd lloc ffos ddwbl yn union i'r dwyrain o'r heol. Credid ei fod yn cynnwys adeilad, o bosib, ond amharwyd ar ei ddehongli gan agosrwydd ffin y cae a chan ymyl yr arolwg. Daethpwyd o hyd i ffosydd gogleddol yr un lloc yn ystod arolwg geoffiseg 1973. Gyda'i gilydd, mae'r ddau dirfesuriad yn dangos lloc ar ochr yr heol, sydd yn fras yn sgwâr ei siâp, a'i ochrau tua 50m yr un. Cynigwyd nifer o ddehongliadau amrywiol o'r lloc hwn, er mai'r tebygrwydd ym mhob achos oedd ei fod yn dyddio o gyfnod ar ôl y gaer. Ystyriwyd y gallai fod yn lle i fyw, ond mae'n bosib fod ei leoliad, yn agos at heol, a'r claddfeydd corfflosgi gerllaw (a ddarganfuwyd yn 1994), yn awgrymu swyddogaeth ddefodol, er enghraifft lloc angladdol neu deml oddi mewn i *temenos*, hyd yn oed, a allai fod wedi'i leoli o fewn corfflan ehangach. Os mai teml yw, byddai'n enghraifft brin iawn yn rhanbarth.

Dilynwyd yr arolwg gan raglen gyfyngedig o gloddio, er mwyn egluro rhai o'r canlyniadau. Torrwyd y tair ffos gan beiriant, a chlanhawyd y nodweddion a'r adrannau â llaw. Roedd nodwedd y ffos ddwbl o ddiddordeb yn enwedig, a dyma ganolbwynt y cloddio. Palwyd y ffosydd fel eu bod yn torri ar draws nodweddion llinellol yn perthyn i'r lloc tybiedig hwn. Cynhwysai'r tair ffos, a Ffos 1 a 3 yn enwedig, ardal sylweddol oddi mewn i'r nodwedd. Ni chafwyd hyd i unrhyw dystiolaeth bendant bod nodweddion yn Ffos 1. Roedd yno, fodd bynnag, ddwy ardal wedi eu diffinio yn aneglur ac ynddynt grynodiad sylweddol o olog o fewn y tir â'r nodweddiadol, a chrynodiadau o gerrig na allent fod wedi cyrraedd y safle drwy unrhyw broses naturiol (*h.y.* llifogydd). Roedd yno grochenwaith Rhufeinig hefyd. Datgelodd Ffos 2, 15m ymhellach i'r dwyrain ond ar yr un aliniad â Ffos 1, nifer o nodweddion wedi'u torri roedd yn anodd sefydlu ym mhle roedd eu hymylon a sianel hynafol hefyd o bosib, ynghyd â dwy nodwedd â gwaelodion llyfn, a oedd fwy na thebyg yn bydewau. Ni nodwyd unrhyw nodweddion yn Ffos 3, ond darganfuwyd taeniad o gerrig ac ychydig o deilchion di-haen o grochenwaith Rhufeinig. Daethpwyd o hyd i'r ardaloedd anamlwg o grynodiad uwch o olog yn Ffos 1 wrth y safle lle darluniodd geoffiseg y 'ffosydd' mewnol ac allanol tynedig, yn eu trefn. Mae'r un peth yn wir am yr unig nodwedd linellol bendant a ddarganfuwyd yn ystod y cloddio, yn Ffos 2, a fyddai yn y safle cywir i gyberthyn i'r ffos allanol y cymerwyd llun ohono. Mae cryn anhawster, fodd bynnag, o ran gweld y nodwedd hon yn rhan o'r un patrwm â'r nodwedd gyfatebol yn Ffos 1, gan fod y nodwedd gyntaf yn gorwedd bron 1m ymhellach yn is o dan arwynebedd y tir modern na'r cyntaf.

Gellir cynnig dau esboniad ar gyfer y diffyg nodweddion llinellol hyn. Yn gyntaf, bod unrhyw ffosydd neu rigolau (os mai dyna oeddent) wedi eu torri mewn i lifwaddod a'u llenwi gyda'r un deunydd, gan eu gwneud yn anodd eu gweld naill ai yn eu cynllun neu mewn trawstoriad. Byddai hyn yn sicr yn esbonio paham ymddangosodd crynodiadau o ddarganfyddiadau fel y rheiny a gafwyd yn y cyntaf o'r ardal a ddiffiniwyd yn aneglur yn Ffos 1 mewn safle sy'n ymddangos yn ddi-haen. Mae'n werth nodi na allai'r coblau a gafwyd yn y ffosydd fod wedi cael eu symud gan lifogydd, ac felly mae'n rhaid eu bod wedi eu cyflwyno i'r safle gan weithred ddynol (er efallai yr aflonyddwyd arnynt gan aredig ers hynny). Yn ail, mae'n werth nodi, er y

cwymerwyd delweddau o'r llinellolion gan fagnetometreg yn unig, ac nid gan arolwg gwrthedd; mae'n ddigon posib mai'r deunydd a losgwyd, yn olog ac yn glai, a ddarganfuwyd oddi mewn i 103,104 a mannau eraill, a dynnwyd delwedd ohono, yn hytrach na gweddillion unrhyw nodweddion wedi'u torri sydd wedi goroesi.

Tybiwyd mai Rhufeinig oedd pob nodwedd, er mai'r unig gyd-destun y gellid ei ddyddio yn uniongyrchol oedd un o'r nodweddion eithaf amwys yn Ffos 1. O ddyfnder amrywiol y nodweddion, mae'n ymddangos yn debyg bod dau gyfnod o weithgaredd, wedi eu rhannu gan gyfnodau o ddyddodiad llifwaddol sylweddol. Gellid gweld dau lefel pendant lle'r oedd pethau o ddiddordeb archeolegol. Yn gyntaf, roedd grŵp o nodweddion yn union wrth waelod, ac wedi eu cwteuo gan, y tir a oedd wedi ei aredig; roedd nodweddion felly yn cyfateb o ran cymeriad, dyfnder o dan wyneb y ddaear, a'u goroesiad, i'r rheiny a ddarganfuwyd yn ystod cloddio 1994. Gwelwyd yr ail lefel yn Ffos 2, gyda nodweddion yn gorwedd tua 1-1.3m islaw'r wyneb; darganfuwyd crochenwaith Rhufeinig ar ddyfnder o 1.2m yn Ffos 3 hefyd.

I gloi, roedd yr ardal a gloddiwyd yn ddiarnheuol yn ardal o weithgaredd dynol, ac mae'n rhesymol inni gredu bod y rhan fwyaf (a'r cyfan, mwy na thebyg), yn dyddio o gyfnod y Rhufeiniaid. Er gwaethaf y data geoffisegol ni ellir dehongli'r safle fel lloc ffos ddwbl ar sail y cloddio yn unig, ac nid oes tystiolaeth sy'n rhoi ei union ddyddiad inni. Os yw'n dyddio o gyfnod wedi'r gaer, mae'r syniad o 'ardal farw' o gwmpas yr amddiffynfeydd yn parhau'n ddilys. Er bod y crynodiadau o gerrig amrywiol yn bendant yn arwyddocaol, ni ellir eu hadnabod fel coblo neu sylfeini adeiladau ar sail y dystiolaeth bresennol. Y dehongliad mwyaf credadwy yw mai ardal ffiniol yw hi, ac un lle'r oedd claddu yn digwydd. Mae hyn yn cael ei awgrymu gan bresenoldeb asgwrn wedi'i losgi yn Ffos 1, ac oddi mewn i'r nodweddion sydd wedi eu byrhau yn Ffos 2. Mae'r darganfyddiadau presennol yn taro deuddeg gyda darganfyddiadau o archwiliadau diweddar eraill yn ne Bryn Biga. Yn 1994, darganfu cloddiadau dystiolaeth o gladdu, tra bod darganfyddiadau a arbedwyd o Dŷ'r Berllan/Orchard House yn ystod gwaith adeiladu yno wedi arbed teilchion o ddau wrn corfflogsi (Marvell *et al* 1998). Yn fwy cyffredinol, mae Manning wedi nodi nifer o feddau a chladdfeydd corfflogsi sy'n torri ar draws olion caerau, y rhan fwyaf (ond nid pob un) wedi'u lleoli rhwng *via principalis* y gaer a ffos ddeheuol y gaer fechan Fflafaidd (gweler Manning 1989, 44, 45, 60 ar gyfer enghreifftiau). Gyda'i gilydd, mae'r darganfyddiadau hyn yn awgrymu bod claddfeydd wedi cyfnod y gaer yn ymestyn ar hyd llinellau'r prif heolydd gynt, ac amrywiant o gyfnod Fflafaidd-Hadrianaidd i'r cyfnod Rhufeinig diweddarach.

Castell-nedd

Safle'r arolwg yng Nghastell-nedd oedd caeau chwarae Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin. Cynhwysai, felly, ran ogledd-orllewinol y gaer, a'r rhan y tu allan i'r muriau y tu hwnt iddi lle y darganfu cloddiadau cynharach yn 1993 adeilad carreg. Cafwyd delweddau da o amddiffynfeydd y gaer garreg. Roedd y mur, y tŵr onglog ac un rhyngdwr yn amlwg. Cyfyngid y dystiolaeth o'r ffos allanol i fagnetigs. Yn fwy annisgwyl, roedd tystiolaeth hefyd o gaer o gyfnod cynharach, mewn ardal i'r gogledd-ddwyrain i'r gaer garreg lle na fu unrhyw fath o gloddio yn flaenorol. Dehonglwyd y nodweddion a ddelweddid fel math o ragfur a ffos allanol, er y byddai'n rhaid i unrhyw amddiffynfeydd yma fod wedi'u gwneud o bren. Daeth archwiliadau cynharach o hyd i strwythur sy'n edrych fel cwrt sylweddol, wedi'i fframio â phren, o ddyddiad cynnar ac wedi'i leoli, yn afreolaidd, yn chwarter de-ddwyrain y gaer. Amrywiai ei aliniad ychydig o aliniad yr amddiffynfeydd cerrig, ond byddai'n cyd-fynd yn well â llinell ffos rhagfur y gogledd-ddwyrain a awgrymwyd gan geoffiseg.

Cafwyd dyluniadau o adeiladau pren hefyd, ac unwaith eto mae'n ymddangos eu bod yn ymestyn y tu hwnt i'r amddiffynfeydd cerrig. Gall hyn awgrymu elfennau o gaer gynharach, ond mae'n eithaf posib mai elfennau o ficws y gaer ddiweddarach yw rhai o'r elfennau o welwyd. Dyma'r esboniad mwyaf tebygol ar gyfer y rhai sy'n ymddangos eu bod yn gorwedd dros y rhagfur.

Gellid gweld heol i'r gogledd-orllewin yn glir ar lain yr arolwg gwrthedd, gan newid cyfeiriad wrth y 'ffos gaer' gynnar. Yn yr ardal tu allan i'r muriau nid oedd tystiolaeth glir o strwythurau ficws; ni chafwyd darlun clir o'r adeilad a ddarganfuwyd yn 1993, gan ei fod wedi'i guddio yn rhannol gan ôl-lenwad y ffos ac yn rhannol gan derfyn cae ôl-ganoloesol.

Cyfeiriadau


Manning, WH 1989 *Report on the Excavations at Usk 1965-1976 The Fortress Excavations 1972-1974 and Minor Excavations on the Fortress and Flavian Fort* (Cardiff)

Marvell, A.G. & Maynard, D.J. 1998. Excavations south of the legionary fortress at Usk, Gwent, 1994, *Britannia* 29, 247-68

YAMG 76 Glannau Dŵr Trefol De-ddwyrain Cymru

Mae porthladdoedd a harbwrau De-ddwyrain Cymru wedi chwarae rhan hollbwysig yn hanes a datblygiad y rhanbarth. Mae'r fasnach arforol a fu yn yr ardal yn ystod y cyfnodau canoloesol, y cyfnod cynnar wedi'r oesoedd canol, a'r cyfnod diwydiannol, ac yr ysgrifennwyd llawer amdani, wedi gwneud llawer i lunio natur y patrymau modern o anheddiad a diwydiant. Er gwaethaf pwysigrwydd archeolegol y porthladdoedd a'r harbwrau, ychydig yw'r ddealltwriaeth o'u natur a'u maint. Golyga ailddatblygiadau sydd yn digwydd ar hyn o bryd, a'r cynnydd mewn datblygiadau glan dŵr yn enwedig, fod yr adnodd archeolegol pwysig a bregus hwn, na ddeallwn ond ychydig amdano, dan fygythiad parhaus.

Ariennir asesiad manwl o'r porthladdoedd a'r harbwrau hyn felly gan CADW, er mwyn inni wella ein dealltwriaeth o botensial y gweddillion arforol archeolegol ac y gellir gwneud penderfyniadau deallus, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, ar sut y gellir mynd i'r afael â chadwraeth yr adnodd hwn yn y dyfodol. Astudiodd Cam 1 (Blwyddyn 1) y prosiect hwn borthladdoedd hanesyddol Cas-gwent, Casnewydd, Caerdydd ac Abertawe.



Aseswyd y Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd a'r Cofnod Cofadeiladau Cenedlaethol, ynghyd â thystiolaeth ddogfennol a chartograffaid a ffynonellau argraffedig eraill, a chrëwyd cronfa ddata i'r prosiect. Cysylltwyd hyn â data Arolwg Ordnans gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol MapInfo. Defnyddiwyd mapiau hanesyddol a godiwyd yn ddaearyddol a'u troslunio â data Arolwg Ordnans, gan

Cynllun o fur canoloesol posib yng Nghas-gwent, o gloddiadau diweddar ar lannau Afon Gwy, (Robic a Ponsford 2002). Ailgynhyrchir y map hwn gan ddefnyddio deunydd Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Swyddfa Sefydlog Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Gall ei atgynhyrchu heb ganiatâd dorri Hawlfraint y Goron, a gall i'w wain at erlyniaeth neu at achos sifil100017916 (2004). Anodiadau © YAMG & CADW

alluogi i ymarfer atchweliad mapiau gael ei gyflawni. Ar ôl hyn, plotiwyd cwrs yr afonydd a lleoliad y nodweddion glan dŵr. Aseswyd y potensial fod gweddillion arforol archeolegol wedi goroesi a chrëwyd mapiau wedi'u rhannu yn barthau. Gellir cael yr wybodaeth hon mewn ffurfiau digidol a chopi caled. Ceir isod grynodeb o'r potensial y byddai gweddillion archeolegol annisgwyl wedi goroesi yn y pedwar safle hwn.

Cas-gwent

Nid yw afon Gwy wedi newid ei chwrs drwy Gas-gwent yn sylweddol yn ystod y cyfnod a astudiwyd gan yr asesiad hwn, ac mae'r cynnydd yn y llifwaddod ar ochr fewnol ystum yr afon yn y man hwn wedi golygu bod glan y dŵr yn symud allan yn araf, i mewn i'r afon. Gellir gweld hwn wrth leoliad y nodweddion glan afon sy'n dyddio o'r cyfnod wedi'r oesoedd canol, ac o bosib o'r oesoedd canol hefyd. Mae gwaith archeolegol yr ymgymeryd ag ef yng Nghas-gwent yn ddiweddar, (Robic a Ponsford 2002; Pre-Construct Archaeology 2003), yn dangos yn glir bod llawer o ddeunydd wedi ei ollwng ar lan yr afon yn y cyfnod wedi'r oesoedd canol, er mwyn sefydlogi'r ardal a chaniatáu i strwythurau lechfeddiannu llifwaddod a fu gynt yn ansefydlog. Mae posibilrwydd cryf, felly, fod strwythurau glan afon y cyfnod wedi'r oesoedd canol, y canol oesoedd a hyd yn oed rhai o gyfnodau cynt, wedi goroesi yn fewndirol.

Mae'n amlwg fod strwythurau organig a rhai nad ydynt yn organig yn gallu cael eu cadw yn dda yn yr amgylchiadau llifwaddodol ar lan orllewinol afon Gwy, ac efallai fod gwybodaeth paleoamgylcheddol pwysig hefyd wedi goroesi islaw wyneb modern y tir. Mewn asesiad o'r potensial ar gyfer darganfod gwaddodion archeolegol, strwythurau ac arteffactau pellach, mae'r ardal gyfan o'r castell hyd at ffin ddeheuol yr astudiaeth wedi ei nodi fel un sydd â 'photensial uchel'. Mae ardal y castell ei hun wedi'i nodi fel un â'i 'photensial wedi sefydlu', hynny yw fod gennym ddealltwriaeth dda o adnodd archeolegol yr ardal hon, ac mae'r tebygrwydd o ddarganfyddiadau annisgwyl yn isel.

Casnewydd

Mae clai llifwaddodol Afon Wysg yn creu amgylchedd anaerobig, â lefel isel o halen, sy'n darparu amgylchiadau gwych i ddeunydd archeolegol oroesi ynddynt. Mae'r lefel uchel o gadwraeth o ddeunydd organig a deunydd nad yw'n organig o gloddiaid diweddar llong ganoloesol ger Town Pill yn dangos y potensial uchel iawn ar gyfer darganfod gwaddodion a nodweddion archeolegol pellach gan gynnwys gwybodaeth paleoamgylcheddol. Ystyrir bod gan unrhyw gloddio dwfn yn y dyfodol botensial uchel o ymyrryd ag arteffactau neu nodweddion yn gysylltiedig â'r porthladd a'r gweithgarwch adeiladu llongau a fu'n gysylltiedig ag ef. Mewn asesiad o'r potensial o ddarganfod gwaddodion, strwythurau ac arteffactau archeolegol, mae'r ardal o amgylch Town Pill wedi'i nodi fel un â photensial uchel.


Er ei bod yn glir fod y prif borthladd canoloesol, a'r cyfnod wedi'r oesoedd canol, tref Casnewydd wedi'i leoli o amgylch Town Pill, mae tystiolaeth y defnyddid afonydd llanw eraill ar hyd afon Wysg hefyd. Mae'r tamaid o long a ddarganfuwyd yn Noc Alexandra yn cynyddu'r posibilrwydd bod yr afonydd llanw eraill ar hyd Afon Wysg yn cael eu defnyddio fel porthladdoedd o'r cyfnod cynhanesyddol ymlaen. Tra bod presenoldeb nodweddion ochr cei ffurfiol yn llai tebygol yn yr afonydd llanw eraill hyn, ni ellir diystyru'r posibilrwydd o ddarganfod, ar hap, longau neu fadau eraill. Ystyrir felly fod gan ardaloedd o gwmpas Jack's Pill, Spytty Pill a Pill Gwenlly botensial uchel o ddarganfod gweddillion archeolegol pellach yno. Nodwyd bod gan yr ardaloedd hynny lle y bu cloddio dwfn, a fyddai wedi tynnu ymaith unrhyw waddodion

archeolegol a allai fod wedi goroesi, er enghraifft y dociau modern, botensial isel. Disgrifiwyd ardaloedd lle mae gennym ddealltwriaeth dda o'r adnoddau archeolegol sydd yno, fel Castell Casnewydd, fel rhai â'u 'potensial wedi'i sefydlu'. Disgrifir yr ardaloedd sy'n weddill, gan gynnwys Afon Wysg ei hun, fel rhai â' photensial canolig.

Caerdydd

Newidiwyd cwrs afon Taf i'w chwrs presennol yn 1849-53. Mae lleoliad dau gei canoloesol wedi'u hen sefydlu, fodd bynnag, un yn Blunch Gate, a'r Golate neu'r cei lleiaf, ar ochr orllewinol y Stryd Golate bresennol. Dangosodd gwaith cloddio ar safle Blunch Gate ar gyfer maes parcio aml-lawr yn 1973-4 y gall nodweddion glan afon oroesi mewn dyfnderoedd sylweddol islaw wyneb presennol y tir (Webster, 1977). Yn ychwanegol at hyn, roedd dau dwll turio a gloddiwyd yn y ddaear yn ystod adeiladu Stadiwm y Mileniwm yn cynnwys pren tua 4m islaw wyneb presennol y ddaear. Tra nad yw'r pren yn dangos gweithgarwch dynol o reidrwydd, mae'n dangos yn amlwg y potensial sydd yno fod deunydd organig, gan gynnwys gwybodaeth paleoamgylcheddol, wedi ei gadw yng nghlai llifwaddol Afon Taf.

Tra ei bod yn bosib mai Blunch Gate a Golate oedd y ddau brif gei canoloesol ac wedi'r oesoedd canol a fu'n gwasanaethu Caerdydd, mae'n bosib fod strwythurau glan afon eraill, a all fod yn hŷn na hwy, wedi goroesi. Mae bron yn sicr y byddai'r gaer Rufeinig wedi derbyn ei nwyddau ar long neu gwch, ac er bod y dystiolaeth yn gyfyngedig, mae'n debygol fod anheddiad bach yn bodoli i'r de o'r gaer o'r cyfnod hwn ymlaen. Gan ystyried symudiad Afon Taf, mae'n anodd tybio lle y byddai lleoliad strwythurau tybiedig cynharach. Ystyrir, fodd bynnag, fod gan yr ardal i'r gorllewin o'r castell a'r dref ganoloesol botensial uchel o weddillion archeolegol sydd wedi goroesi.



Lleoliad y ceiau ar hyd Westgate Street yng Nghaerdydd. Ailgynhyrchir y map hwn gan ddefnyddio deunydd Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Swyddfa Sefydlog Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Gall ei atgynhyrchu heb ganiatâd dorri Hawlfraint y Goron, a gall arwain at erlyniaeth neu at achos sifil100017916 (2004). Anodiadau © YAMG & CADW

Yn ychwanegol at hyn, gallai'r afonydd llanw llai i dde'r ddinas fod wedi bod yn atyniadol fel porthladdoedd dros dro o'r cyfnod cynhanesyddol ymlaen, ac fel Casnewydd, ni ellir diystyru'r posibilrwydd o ddarganfod cychod neu longau yno.

Ystyrir yr ardal hon hefyd, felly, fel un sydd â photensial uchel. Dynodwyd ardaloedd eraill, fel Afon Taf, fel rhai â photensial canolig,

heblaw am ardaloedd lle byddai datblygiadau modern wedi cael gwared ar unrhyw waddodion a allai fod wedi goroesi.

Abertawe

Yn Abertawe, mae cwrs Afon Tawe wedi ei newid yn sylweddol, oherwydd cloddio New Cut yn gynnar yn y 19G, er mwyn creu 'porthladd arnofiol'. Mae'n amlwg fod porthladd Abertawe yn y cyfnod canoloesol, ac yn gynnar wedi'r oesoedd canol wedi'i leoli ar hyd glan afon orllewinol Afon Tawe. Mae'r potensial o nodweddion glan dŵr yn goroesi yn amlwg o'r gweddillion a ddarganfuwyd islaw'r castell, a'r pren a ddarganfuwyd yn ystod cloddio ar gyfer islawr y Tŵr BT presennol. Mae hyn yn amlwg yn dangos y potensial fod deunydd organig, gan gynnwys gwybodaeth paleoamgylcheddol, wedi'i gadw yng nghlai llifwaddodol Afon Tawe. Ystyrir bod y darn hwn o'r glan dŵr o botensial uchel, heblaw am le y byddai datblygiadau cynharach wedi cael gwared ar unrhyw weddillion a allai fod wedi goroesi. Mae ardaloedd eraill, gan gynnwys Afon Tawe ei hun, wedi'i nodi fel rhai o botensial canolog.

Cyfeiriadau

Pre-Construct Archaeology, 2003, *An assessment of the archaeological excavations, evaluations, test pits, field surveys and watching briefs along the South East Coastal Strategy Pipeline, between Chepstow and Magor, south Wales*, adroddiad heb ei gyhoeddi PCA
Robic J-Y and Ponsford M, 2002, *Chepstow Flood Alleviation Scheme: archaeological watching brief*, Channel Archaeology
Webster P, 1977, Excavations in Quay Street, Cardiff 1973-74, *Arch. Camb Cyf.* **126**, 88-115

YAMG 77 Llociau Ffosydd Bylchog

Llociau ffosydd bylchog wedi'u croesi gan sarn yw un o gofodeiladau diffiniol y cyfnod Neolithig. Yn wreiddiol, roeddynt yn gyfystyr â thwyndir sialc de Lloegr, ond mae'n hysbys yn awr eu bod yn ymddangos mewn lleoliadau topograffeg amrywiol a, hyd heddiw, mae rhyw 70 wedi eu darganfod yn Ynysoedd Prydain. Hyd nes y darganfyddiad diweddar, drwy ragchwiliad o'r awyr, o bedwar lloc Neolithig posib ym Mro Morgannwg, ni wyddid am y math hwn o gofadail yng Nghymru.

Cynhwysai'r prosiect hwn asesiad a wnaethpwyd wrth ddesg o dystiolaeth safleoedd sydd wedi'u darganfod yn ardal orllewinol Bro Morgannwg, a hefyd archwiliad o'r potensial o ddarganfod safleoedd newydd yn yr ardal. Datgelodd astudiaeth gymharol o'r llociau yn Ewenni, Corntwn, Norton a Phant yr Hyl, gan ddefnyddio dogfennau sydd wedi'u cyhoeddi a rhai sydd heb eu cyhoeddi, awyrluniau a'u trawsgriadau, rai amrywiadau morffolegol rhwng y safleoedd, fel y gellid disgwyl. Mae'r awyrluniau a'r plotiau o lociau Corntwn a Norton yn awgrymu darnau o ffosydd segmentaidd; datgelodd cloddio yn Ewenni un ffos wedi'i chroesi gan sarn nad oedd wedi ei ddangos gan awyrluniau. Oherwydd nad oedd unrhyw dystiolaeth arall a allai eu dyddio (mae dystiolaeth Ewenni yn aros am adroddiad y cloddiaid; nid yw'r cysylltiad â'r lloc o wasgariad fflint a ddarganfuwyd ar safle Corntwn wedi ei sefydlu). Credir bod y safleoedd hyn yn dyddio o'r cyfnod Neolithig, oherwydd bod ynddynt yr hyn sy'n ymddangos fel cylchoedd ffosydd bylchog. Ychydig iawn o wybodaeth sydd hyd yn hyn ar y lloc ym Mhant yr Hyl, heblaw am rai ffotograffau lletraws sy'n dangos y rhan fwyaf o loc un cylch. Unid y pedwar lloc gan eu safle topograffaidd ar y Calchfaen Carbonifferaidd o fewn cyrraedd hawdd i'r adnoddau fflint arfordirol, ond, ag ystyried natur brin a bylchog y cofnod archeolegol ar gyfer y Neolithig yn yr ardal, nid oes digon o dystiolaeth i fod yn sicr eu bod yn cynrychioli crynodiad gwirioneddol o'r cofodeiladau hyn, neu duedd yn y cofnod yn unig.

Er y ceisiwyd dod o hyd i ffyrdd o ddarganfod safleoedd newydd o'r math hwn yn yr ardal, penderfynwyd nad oes ffordd glir o'i wneud ar hyn o bryd. Mae'r Cofnod Cofodeiladau a Safleoedd, ac i raddau'r Cofnod Cofodeiladau Hanesyddol, yn eu

ffurfiau presennol, yn ddulliau aneffeithiol o gyflawni ymchwil o'r math hwnnw. Roedd astudiaethau o leoliad topograffeg y safleoedd a ddarganfuwyd eisoes yn aflwyddiannus, gan nad oes digon o wybodaeth ar y Neolithig lleol er mwyn gweld patrymau.

Casgliad yr astudiaeth oedd y byddai'n well coethi a gwella'r setiau data sydd gennym ar hyn o bryd, er mwyn rhoi gwybodaeth i ymchwil yn y dyfodol. Penderfynid hefyd y dylid hefyd roi prawf ar ddata'r awyrluniau'r maes, drwy dirfesuriadau a mesuriadau geoffisegol a chloddio ffosydd sampl wedi'i dargedu yn benodol, er mwyn cadarnhau, neu dadbrofi natur fylchog y ffosydd. Yn y cyfamser, mae'r posibilrwydd bob amser y gallai trefesuriad systematig o'r awyr barhau i ddarganfod safleoedd enigmatig hyn. Os gellir profi mai llociau Neolithig wedi'u rhannu gan sarnau yw'r llociau ym Mro Morgannwg, mae angen ail-werthuso'r Neolithig yng Nghymru.

ADOLYGIAD O BROSIECTAU CADW EBRILL 2004 – MEDI 2004

YAMG 61 Nodweddu Tirwedd hanesyddol

Blaenafon

Cwblhawyd gwaith nodweddu Tirwedd Hanesyddol Eithriadol Blaenafon hyd nes adroddiad drafft. Mae nodweddu tirwedd yn broses ddeinamig sy'n datblygu hefyd. Adlewyrchir hyn yn yr adolygiad cyson o ffiniau a hefyd y nifer o ardaloedd nodweddiadol unigol a ddarganfuwyd o fewn y Tirwedd Hanesyddol. Er mwyn gwneud hyn, ymgwymerwyd ag adolygiad o'r dystiolaeth ddogfennol (gan gynnwys ffynonellau cartograffaid, darluniadol a ffotograffaid) a thystiolaeth gwaith maes gan ystyried llinynnau gwahanol o dystiolaeth, fel prosiectau tirwedd blaenorol, wrth gynhyrchu'r adroddiad drafft.

Golygai'r gwaith ymgymryd â chwiliadau pen desg, gan gynnwys: ymgynghori â Chofnod Cofadeiladau a Safleoedd a throsglwyddo gwybodaeth yn ddigidol i weithleoedd. Nodwyd adroddiadau datblygwr perthnasol ac adroddiadau eraill a chasglwyd ffynonellau eilradd. Ymgynghorwyd â CADW (rhestrau a SAMs) y Comisiwn Brenhinol ar Henebion a Chofadeiladau Hanesyddol Cymru (gwybodaeth bellach Cofnod Cofadeiladau Hanesyddol o Endex, Coflein, arolygon a.y.b., a Chofrestrfa Ganolog Awyrluniau yng Nghymru (awyrluniau a oedd ar gael), hefyd. Yn ogystal â hyn, cysylltwyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gyfer chwiliad cronfa ddata i chwilio am ffynonellau gwybodaeth perthnasol, a chafwyd copïau o'r tri argraffiad cyntaf o'r mapiau OS 6-modfedd. Edrychwyd ar yr holl fapiau Degwm a mapiau ystâd a oedd ar gael yn Swyddfa Gofnodion Gwent, Cofnod Cofadeiladau Cenedlaethol, y Comisiwn Brenhinol ar Henebion a Chofadeiladau Hanesyddol Cymru, a'r Llyfrgell Genedlaethol.

Crëwyd gweithleoedd MapInfo gyda gwybodaeth tablau Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd/Cofnod Cofadeiladau Cenedlaethol, Adeiladau Rhestredig a gwybodaeth Cofadeiladau Hynafol Rhestredig, a gwybodaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar ardaloedd dynodedig ac ardaloedd eraill. Crëwyd mapiau sylfaen papur o'r ardal gan ddangos yr Ardaloedd Nodweddiadol Tirwedd Hanesyddol Nodweddiadol rhagarweiniol ar raddfa o 1:50,000 a 1:25,000. Digidwyd yr Ardaloedd Nodweddiadol Tirwedd Hanesyddol wedyn fel ardaloedd aml-onglog (Tablau MapInfo) mor fanwl gywir â phosib. Arolygwyd y rhain wedyn er mwyn ystyried gwybodaeth bellach o'r ymweliadau â'r safle ac o ffynonellau eraill, gan gynnwys awgrymiadau aelodau Gweithgor Amgylchedd Hanesyddol Tirlun Diwydiannol Blaenafon. Defnyddiwyd proformas yn ystod yr ymweliad â'r safle er mwyn ffurfio cynsail cofnod ysgrifenedig, ac ychwanegir cofnod ffotograffaid ato. Cynhwysai'r ymweliad â'r safle adolygiad o gymeriad treftadaeth bensaernïol yr ardal, a mewnbwn gan staff CADW. Ychwanegodd awyrluniau at y ddealltwriaeth o batrymau a gwead y dirwedd, ac arweiniodd at adolygu pellach. Cwblhawyd mapiau digidol wedi'u hadolygu (gan gynnwys tablau MapInfo, gweithleoedd a ffenestri cynllun) ar gyfer pob un o'r ardaloedd fel cynsail i ffigurau'r mapiau gael eu defnyddio yn yr adroddiad terfynol.

Darganfuwyd y gellid rhannu'r tir ar hyd llinellau trafndiaeth ddiwydiannol, prosesu, ac ardaloedd anheddiad h.y. y coridorau trafndiaeth/cyfathrebu (heol, rheilffordd, a thramffordd), y gweithfeydd haearn eu hunain, a chaeau mwynau creiriol yr ardal (glo, mwyn haearn a chalchfaen).

Roedd yr ymchwil yr ymgwymerwyd â hi yn sylfaenol i'r astudiaeth, a chaniataodd ddealltwriaeth o gymhlethdod a chyfanrwydd tirwedd ddiwydiannol yr ardal, sy'n cynrychioli microcosm pwysig a chyfan, ar y mwyaf, o weithfeydd diwydiannol yn gysylltiedig â'r diwydiant haearn, cwarrau, ffwrneisi, gefeiliau, gweithfeydd haearn, cysylltiadau trafndiaeth ac anheddiad diwydiannol.

O ganlyniad i'r arolwg cyflym uchod, atchweliad map ac ymweliad â'r safle, daethpwyd o hyd i 21 ardal nodwedd. Cynhwysai'r rhain bedair ardal drefol ddiwydiannol, dwy ardal anheddiad trafndiaeth ddiwydiannol, dwy ardal ddiwydiannol prosesu haearn, ac o leiaf pum safle echdynnu sydd wedi goroesi, ymhlith rhai eraill.

Gellid sylwi bod cymeriad y dirwedd wedi datblygu o hwyr yn y 18G/gynnar yn y 19G, gydag ychwanegiadau hwyrach yn gyffredinol yn atgyfnerthu'r cymeriad a fodolai eisoes. Dechreuodd datblygiad trefol diwydiannol ar raddfa gyfyng yn agos i'r gweithfeydd haearn, ac mae'n debyg fod yr anheddiad amaethyddol a fodolai eisoes wedi amsugno llawer o'r anghenion annedd cychwynol. Datblygodd ehangu anheddiad diwydiannol yn gyntaf fel rhuban ar hyd Heol yr Eglwys/Church Road ac yn yr ardal ar hyd Heol y Brenin/Heol y Frenhines (King and Queen Streets) o tua 1800 ymlaen, gyda nifer o adeiladau yn goroesi o gyfnod c.1800-1840. Mae anheddiad cysylltiedig, sydd hefyd yn perthyn i'r system gamlas, yn datblygu o yn gynnar yn y 19G (ANTHs 014 ac 015). Erbyn cyhoeddi argraffiad cyntaf OS (1880au), roedd cynllun grid craidd trefol Blaenafon (ANTH001) wedi'i sefydlu. Mae argraffiadau diweddarach o'r OS yn dangos yn fanwl ehangu trefol troad y 19/20 ganrif dros anheddiad gwasgaredig amaethyddol/diwydiannol (TH CA002). Yn ystod yr 1850au dechreuodd aneddiadau dibynnol yn gysylltiedig â'r gweithiau newydd yn Forgeside (ANTHs 012 a 003) ymddangos.

Lefelau Gwent

Postiwyd crynodeb o ganlyniadau nodweddu manwl Tirlun Hanesyddol Lefelau Gwent, a fu'n cael ei olygu a'i ailfformatio yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ar y we yn Awst 2004, yn dilyn ei gyfieithu i'r Gymraeg.

YAMG 67 Tir Gofal

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i brosesu ceisiadau fferm Blwyddyn 4 a raddiwyd yn llwyddiannus (HE1s). Erbyn diwedd Medi, bydd 43 cais wedi'u prosesu ar ran Cadw a'u hanfon at gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r cyfanswm yn cynnwys 11 o geisiadau tir ychwanegol; gohiriwyd prosesu ceisiadau tir ychwanegol eraill yn gynnar ym mis Medi tan fod y cytundeb ariannu wedi'i egluro.

YAMG 72 Safleoedd Angladdol a Defodol Cynhanesyddol

Mae gwaith eleni o gylch cyfyng iawn, gan gynnwys dod o hyd i ffeithiau er mwyn penderfynu a oes marchnad debygol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ar safleoedd cynhanesyddol angladdol a defodol naill ai yn sector ysgolion neu yn sector twristiaeth. Dadansoddir y canlyniadau erbyn y cyfarfod hanner-blynnyddol ar ddiwedd mis Medi. Mae arwyddion rhagarweiniol yn y sector addysg yn dangos nad yw'n debyg y bydd galw am unrhyw becynnau gwaith ar y pwnc, gan fod y rhan fwyaf o ysgolion yn dysgu opsiynau ar y 'Celtiaid' neu'r 'Rhufeiniaid' yn hytrach nag ar 'Bobloedd Cynnar', a than y teitl hwn y byddai'r astudiaeth hon yn dod. Ymddengys y byddai gan siart darluniadol da i'w osod ar wal yn apelio rywfaint atynt, fodd bynnag. Nid yw'r cyrff twristaidd yn frwdfrydig iawn; mae rhai yn teimlo na fyddai marchnad ar

gyfer llwybrau cofadeiladau wedi'u hanelu at yrwyr neu at gerddwyr, ac er bod eraill yn fwy cadarnhaol, nid oes un ohonynt yn fodlon rhoi arian.

YAMG 73 Anheddiad Eglwysig y Canoloesoedd Cynnar

Mae gwaith y pedair ymddiriedolaeth wedi cynnwys paratoad ar bapur i'w draddodi mewn cynhadledd ar yr Eglwys Ganoloesol Gynnar sydd i'w gynnal ym Mangor ym mis Medi, ar bwnc a gododd o'r cynllun traws-Gymru, yn berthnasol yn benodol i'w hardal hwy o'r dywysogaeth. Yn achos yr Ymddiriedolaeth, roedd hyn yn archwiliad o'r graddau y daeth safleoedd canoloesol eglwysig wedyn yn safleoedd priordai a maenorau urddau rheolaidd Catholig, ac fel mae'r de-ddwyrain yn cymharu â gweddill Cymru o ran hyn. Mae'r ffaith fod data cymharol gyson ar y safleoedd cynnar ar draws y Dywysogaeth gyfan ar gael am y tro cyntaf wedi'i gwneud hi'n bosib gwneud y cymariaethau hyn.

Tra bod ychydig iawn o newid i amlinelliad bras y darlun sydd wedi'i hen sefydlu (Benedictiaid yn unig yn y de, *clasau* yn y gogledd yn mabwysiadu Rheolaeth Awstin Sant, Sistersiaid yn apelio'n eang i'r Cymry ac i'r Normaniaid fel ei gilydd), mae manylion rhyfedd wedi ymddangos. Gellir gweld trawsnewid y *clas* yn briordy Awstin Sant yn nodwedd arbennig o sut unionodd esgobaeth Bangor ei hun â'r drefn eglwysig newydd: nid oedd unrhyw Awstinaid yn Llandelwy. Nid yw'n debyg fod un o'r tai deheuol o ganlyniad i drawsnewidiad uniongyrchol, efallai fod poblogrwydd yr Awstinaid ymhlith y Sefydliad Saesneg yn gymaint o ffactor yn sefydlu Priordy Caerfyrddin na'i hanes blaenorol. Ni cheir cymhariaeth debyg yng Nghymru o'r nifer gymharol uchel o adeiladau Sistersaidd yn Llandaf sydd ag arwyddion eu bod yn safleoedd eglwysig cyn y Goresgyniad; mae 75% o'r holl enghreifftiau yn yr un esgobaeth hon. Mae tystiolaeth, fodd bynnag, nad oedd y gyfres o ddigwyddiadau yn golygu o reidrwydd fod y Normaniaid a oedd yn goresgyn y wlad yn meddiannu tir yr eglwys Geltaidd er mwyn ei roi i fynachdai yn Normandi neu yn Lloegr. Mewn rhai achosion mae'n rhaid bod cryn dipyn o amser wedi treiglo ymaith rhwng y naill ddigwyddiad a'r llall, ac mewn achosion eraill y perchenogion tir Cymreig a oedd yn gyfrifol, ac nid y Normaniaid. O ran y Benedictiaid, mae'n amlwg fod eu presenoldeb yn esgobaeth Llandaf wedi'i sefydlu yn gryfach yno nac yn Nhyddewi, gan fod pum priordy cwfeiniol yno hytrach na'r ddau yn Nhyddewi.

YAMG 75 Ficysau a Ffyrdd Rhufeinig

Mae amcanion prosiect eleni wedi canolbwyntio yn bennaf ar gloddio. Cloddiwyd yng Ngelligaer ac yng Nghastell Nedd, ym mhob achos er mwyn profi dilysrwydd y canlyniadau a gafwyd gan yr arolwg geoffisegol y flwyddyn gynt. Nid y canlyniadau a ddisgwyliid a gafwyd yn yr un achos. Yng Ngelligaer, astudiwyd dwy ardal amwys i ogledd-orllewin Gelligaer, y ddau drwy dorri ffos â pheiriant, 1.8m o led; torrwyd trydedd ffos drwy'r nodwedd y credid mai ffos yn ffurfio rhan o amddiffynfeydd y gaer gyntaf oedd. Tybid yn flaenorol mai adeiladau oedd yr ardaloedd, o bosib adeilad mewn cwrt a baddondy posib, a'r ddau wedi'u nodi gan blatfform gwrthglawdd. Archwiliwyd Platfform 1, y platfform/anomaledd pellaf o Gelligaer II, a ddehonglwyd fel baddondy, drwy dorri ffos, 30m o hyd a 1.8m o led. Profwyd mai ardal losgi ar yr isbridd oedd yr anomaledd, a oedd hefyd wedi gweld ffurfio'r cletir haearn. Ni ddarganfuwyd unrhyw ddeunydd Rhufeinig o gwbl yn y ffos hon, ac ni sefydlwyd dyddiad y llosgi. Archwiliwyd Platfform 2, safle'r tŷ tybiedig a safai mewn cwrt, drwy fodd ffos 20m o hyd. Roedd yn cynnwys pydew wedi'i dorri mewn i'r isbridd a sail amffora, ynghyd â nodweddion eraill mwy darfodedig wedi'u torri yn yr isbridd, a chasgliad o deilchion o amffora mewn aliniad llinellol bras ar waelod yr uwchbridd. Mae'n edrych yn debyg y gallai'r teilchion hyn o amffora, ynghyd â'r gwaelod yn y

pydew, fod wedi creu anomaledd a allai fod wedi ei ddehongli fel llinell mur. Nid oedd dyfnder stratigraffeg yn y ffos hon, a gynhwysai hefyd waddodion tenau o bridd yn cynnwys deunydd Rhufeinig, dros yr isbridd naturiol. Er mai detholiad o'r rhain yn unig y gellid eu cloddio yn yr amser a oedd ar gael, nid oedd dim i awgrymu fod adeilad erioed wedi bod yno. Roedd y drydedd ffos a dorwyd, 5m o hyd, yn archwilio'r ffos a oedd yno eisoes. Roedd hon yn gymharol gul a bas (ychydig yn fwy na 2m o led a llai na 1m o ddyfnder), ac ni allai fod wedi bod yn nodwedd amddiffynnol. Nid oedd ynddi unrhyw ddeunydd y gellid ei ddyddio. Mae'n edrych yn debyg ei bod wedi ei chysylltu â'r llwybr y sonnir amdani dan y llain hon o dir yn nosraniad y degwm (er nad yw wedi ei dangos yn raffigol ar y map sy'n cyd-fynd ag ef).

Mae canlyniadau'r gwerthusiad tir hwn yn dangos y bu gweithgarwch Rhufeinig yno, ond fe'i cyfyngid i ben gogledd-orllewin y safle, a ymddangosai fel gweithgarwch posib ymyl yr anheddiad. Mae'n debyg ei fod yn cynrychioli eithaf pellaf y ficws yn gysylltiedig â Gelligaer II.

Cyfyngid y cloddiadau er mwyn profi canlyniadau'r arolwg geoffisegol ar gae chwarae Cwrt Herbert yng Nghastell Nedd gan yr angen i osgoi ymyrryd â'r caeau rygbi. Y nod oedd cloddio dwy ffos, 2m x 10m yr un, y naill ar linell dybedig amddiffynfeydd y gaer gynnar, a'r llall er mwyn archwilio'r nodwedd a ymddangosai fel heol yn mynd allan o glwyd ogledd-orllewinol y gaer. Roedd y ffos dros y llinell amddiffynnol, a leolwyd yno er mwyn edrych ar yr anomaledd a ddisgrifiwyd fel ffos, yn cynnwys tomen o waddodion clai â rhai lleiniau o goblau, oll yn cwmpo i'r gogledd-orllewin. Profwyd mai ardal eang o gletir haearn oedd y 'ffos' a oedd wedi datblygu y tu ôl i'r gwaddodion clai mwyaf dwys a sylweddol, sy'n gorwedd dros haen o goblau mawr. Credir bod y gwaddodion clai yn ffurfio rhagfur cynnar, a chynrychiolir ei wyneb allanol gan y gwaddod clai sylweddol a'r coblau, a oedd wedi amharu ar ddraeniad i'r fath raddau nes achosodd i'r cletir haearn ffurfio. Yn anffodus, roedd gan y cletir haearn arwynebedd ymdonnog ac nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gyfer ffordd foncyff wedi'i chadw. Roedd y gwaddodion uwchlaw a thu ôl hwn yn debyg iawn o ran natur, a chynhwysent ddarnau mawr o glai dwys. Mae'n edrych yn debyg fod hyn yn cynrychioli niweidio'r rhagfur, â deunydd ei gorff wedi'i ollwng o'i flaen. Ni chanfuwyd ffos, ond fe'i ystyriwyd yn debyg ei fod yn gorwedd wrth ben gogledd-orllewinol y ffos, islaw'r gwaddodion a ffurfiwyd gan y rhagfur a ddinistriwyd. Yr unig ddarganfyddiadau stratigraffig oedd teilchion o fric neu deilsen yn y rhagfur. Roedd y rhain yn rhy fach i'w dyddio, ond roeddent yn gyson â deunydd Rhufeinig.

Roedd y ffos arall wedi'i lleoli yn yr unig leoliad posib dros linell yr heol dybiedig, rhwng cae rygbi a'r trac rhedeg, ond hyd yn oed wedyn roedd rhaid ei gwtogi i 7.5m er mwyn osgoi amharu ar y cae rygbi. Roedd, fodd bynnag, wedi'i lleoli yn gywir er mwyn dod o hyd i'r heol dybiedig. Ni ddatgelodd cloddio unrhyw arwyddion o hyn. Ymddangosodd nodwedd gul, linellog, coblog tuag at ben gogledd-ddwyreiniol dros yr uwchbridd naturiol fel sylfaen o natur eithaf ansylweddol; a rhedai nodwedd debyg arall ar hyd y pen gogledd-ddwyrain, ond ni ellid gweld yn beth oedd ei lled cyflawn. Ar ochr arall y sail coblog cyntaf, roedd nodwedd linellol ddarfodedig o liw ychydig yn dywyllach, ni ellid ei gweld yn glir yn y cynllun, ond roedd yn haws ei gwahanu yn y trawstoriad fel gwli. Nid oedd arwydd o heol. Darganfuwyd dau dalch bychan o waith llwyd yn y ffos hon.

Mae canlyniadau'r cloddio hwn yn cadarnhau bod caer gynharach yn ymestyn ychydig ymhellach i'r de-ddwyrain na'r gaer garreg. Ni welwyd tystiolaeth o heol yn mynd o'r glwyd gefn, ond ymddengys fod gweithgarwch o ryw fath. Daeth gwaith blaenorol (*Archaeology in Wales* 33 (1993) 60) o hyd i adeilad rhwng yr ail ffos a'r

gaer, ond ni welwyd dim byd yn ardal y trac rhedeg, ac mae'n ymddangos fod yr ardal hon yn dynodi ffin bellaf y gweithgarwch tu hwnt i'r muriau.

YAMG 76 *Glannau Trefol De-ddwyrain Cymru*

Mae Blwyddyn 2 y prosiect hwn yn cynnwys pob porthladd a harbwr bach ar hyd arfordir gyfan rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Roedd y porthladdoedd a'r harbwrau bychain hyn yn hanfodol i fasnach, teithio a diwydiant (fel pysgota, gwneud halen) De-ddwyrain Cymru yn y 19eg ganrif.

Daethpwyd o hyd i'r safleoedd o The Welsh Port Books (Lewis 1927) a'r rheiny y daethpwyd o hyd iddynt yn ystod yr arolwg arfordirol (Locock 1996, 1997, 1998), er gall safleoedd na ddarganfuwyd hyd yn hyn fodoli hefyd. Defnyddiwyd dyddiad terfyn o 1800, er mwyn eithrio datblygiadau dociau mawr y cyfnod diwydiannol. Yn achos y prif afonydd llanw; terfyniadau'r astudiaeth i fyny'r afon yw: Afon Gwy: Tyndyrn; Afon Wysg: Caerllion; Afon Taf: Caerdydd (a astudiwyd ym Mlwyddyn 1); Afon Nedd; Castell Nedd; Afon Tawe: Abertawe (astudiwyd ym mlwyddyn 1); Afon Llŵchwr: Casllŵchwr.

Lluniwyd ardaloedd astudiaeth ac mae data Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd a data mapio hanesyddol wedi eu gosod ar ben mapiau sylfaen digidol. Mae cynllun o ymweliadau â safleoedd wedi cychwyn, er mwyn asesu cyflwr presennol y safleoedd, dod o hyd i unrhyw fygythiadau i safleoedd presennol a darganfod unrhyw safleoedd na chofnodwyd hyd yn hyn.

Cyfeiriadau

Lewis E A, 1927 'The Welsh port books (1550-1603)' *Cymmrodorion Record Cyfres 12*
Locock M, 1996 *YAMG 50: Coastal Survey (Glamorgan), Loughor, West Glamorgan to Sker Point, Mid Glamorgan* Adroddiad **YAMG 96/015**
Locock M, 1997 *YAMG 50: Coastal Survey (Glamorgan), Sker Point, Mid Glamorgan to the River Rhymney, South Glamorgan* Adroddiad **YAMG 97/011**
Locock M, 1998 *YAMG 50: Coastal Survey (Glamorgan), River Rhymney, Cardiff (South Glamorgan) to River Wye, Monmouthshire (Gwent)* Adroddiad **YAMG 98/010**

YAMG 78 *Llociau amddiffynnol cynhanesyddol*

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi ei amserlennu i'w gynnal yn ail ran y flwyddyn ariannol. Yr unig weithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy sy'n gysylltiedig ag ef yw echdynnu'r gronfa ddata wreiddiol o'r CCS a'r NMR, mynychu'r cyfarfodydd hanner-blyneddol, ac archwilio'r pro foma arfaethedig ar gyfer cofnodi ac amserlennu asesiad.

YAMG 79 *Amgylchion Caerlleon*

Daethpwyd o hyd i leng-gaer Rufeinig Caerllion a'i amgylchion gan yr asesiad ymchwil ar gyfer De-ddwyrain Rhufeinig Cymru yn 2002-03 fel ardal o bwysigrwydd arbennig (gweler cpat.org.uk/research/serom.htm). Mae'r prosiect hwn wedi ceisio rhoi fframwaith ar gyfer ymchwil yn Amgylchion Caerllion yn y dyfodol drwy adolygu data sy'n bodoli eisoes, adnabod cwestiynau sy'n dal heb eu hateb, a darparu cynigion bras ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Fe'i hystyrir yn gam cyntaf mewn dull newydd cyfannol ar gyfer gwaith archeolegol yng Nghaerllion, a fydd yn canfod dyfnder ein gwybodaeth, y prif fylchau ynddo, a'r cwestiynau y dylid eu gofyn yn ystod unrhyw waith yn y dyfodol o ystyried pwysigrwydd lleol, rhanbarthol,

cededlaethol a rhyngwladol. Ni fydd yn bwriadu atebion y cwestiynau hyn ei hun, ond bydd yn rhoi cynllun bras ar sut y gellir mynd i'r afael â hwy.

Rhannwyd ardal yr arolwg yn dri pharth. Mae Parth A yn cynnwys y gaer fel y'i diffinnir gan y system ffosydd. Mae Parth B yn cynnwys yr ardal sydd union y tu allan i'r gaer, sydd yn cynnwys yr anheddiad sifil a'r mynwentydd yn bennaf, ac ardal anheddiad ar lan ddeheuol afon Wysg o gwmpas pen y bont, a'r fynwent gysylltiedig ar lethrau isaf Bryn Cas-gwent. Ffinir rhan ddeheuol a de-orllewinol y rhan hon gan afon Wysg; i'r gogledd gan frig Bryn y Porthdy/Lodge Hill; i'r dwyrain gan Nant Sor/Sor Brook i ogledd Wysg, ac i'r de gan y nant ddiennw sy'n rhedeg bron yn gyferbyn lawr Bryn Cas-gwent; ac i'r de-ddwyrain gan frig Bryn Cas-gwent. Mae Parth C yn cynnwys ardal ehangach. I'r de o Gaerllion, mae'n ymestyn ar hyd Lefelau Hafren o Rymni yn y gorllewin i Allteurn yn y dwyrain; mae'r ffin wedyn yn rhedeg yn fewndirol i Goldra, lle mae'n troi i ddilyn brig y sgarp sy'n ffurfio ochr ddwyreiniol cwm Wysg bron â bod mor bell â Llantrisant, wedyn mae'n rhedeg yn union i'r gorllewin i Groesyceiliog cyn troi i'r de-ddwyrain ac i'r de ac yn cwrdd â llinell traffordd yr M4 wrth gyffordd 27.

Dechreuwyd ar y gwaith gan adolygu'r data a fodolai eisoes. Rhannwyd y gaer a'i hamddiffynfeydd (Parth A) ymhellach yn ardaloedd ar wahân (*insulae*, elfennau o amddiffynfeydd, elfennau o rwydwaith o heolydd), ac roedd pob un o'r rhain wedi eu hasesu o ran maint yr ardal a gloddiwyd, canlyniadau'r cloddio, a dibynadwyedd y dehongliad. Gwnaethpwyd yr un peth â Pharth B. Ym Mharth C archwiliwyd y data a oedd ar gael ar gyfer pob safle a oedd yn hysbys. Gan ddilyn y cam hwn o adolygu data, trefnwyd cyfarfod â charfannau eraill oedd â diddordeb er mwyn trafod y pynciau sydd angen eu trafod, a chynnig methodoleg ar gyfer ymdrin â hwy. Rhoddwyd pwyslais ar adnabod targedau sydd wedi'u diffinio'n glir, a chreu strategaeth ar gyfer ymdrin â hwy yn y dyfodol y gellir ei ragweld. Mae papur drafft yn ymgorffori canlyniadau'r sesiwn hwn wedi ei gylchredeg er mwyn i bobl gynnig sylwadau arno.

YAMG 80 *Gweithfeydd haearn de-ddwyrain Cymru*

Mae'r astudiaeth wedi ei chyfyngu i ymyl ogleddol y maes glo i ddechrau, ac yn benodol y safleoedd hynny a ddisgrifiwyd gan Ince (1993). Mae tua 30 o safle ffwrneisi chwyth mawr yn cynhyrchu haearn yn bodoli yn yr ardal hon.

Gweithgaredd syml ond gwerthfawr oedd cymryd darlun argraffiad cyntaf y map OS a chymharu hwn â map modern a'r awyrluniau a cheisio darganfod ac adnabod beth sydd wedi goroesi ac y gellir ei gweld, beth sy'n goroesi ond sydd wedi ei gladdu, a beth sydd wedi ei ddinistrio. Ffiniau'r astudiaeth fyddai terfynau'r gweithfeydd haearn, eu cysylltiadau trafndiaeth uniongyrchol a'r gweithfeydd dŵr, ac ni fyddai'n ymestyn i safleoedd ehangach rheolaeth dŵr, trafndiaeth ac echdynnu. Bydd hyn yn cael ei ddilysu gan ymweliadau â'r safleoedd, ymgynghori ag adrannau adfer tir yn lleol, a siarad ag arbenigwyr lleol. Byddai pob safle wedyn yn cael ei dynodi yn ardal archeolegol sensitif, yn ardal o botensial archeolegol neu yn ardal anffrwythlon.

Mae'r prosiect hyd yn hyn wedi cynnwys archwilio'r Cofnod Cofadeiladau a Safleoedd Rhanbarthol sydd ar y cyfrifiadur, a'i ategu gan yr holl ddata arall a oedd eisoes ar gael. Gyda'r wybodaeth sydd ar gael i'r prosiect hwn wedi'i gwella, mae'r fethodoleg wedi cynnwys elfen ben-desg fanwl, gan gynnwys atchweliadau map. Ymgynghorwyd â gweithiau ac erthyglau mwy cyffredinol a oedd ar gael gan ffynonellau eraill hawdd dod o hyd iddynt, a chafwyd gwybodaeth arbenigol gan haneswyr ac archeolegwyr yn gweithio yn yr ardal. Nid yw'n fwriad ymgymryd ag

unrhyw ymchwil wreiddiol, heblaw am nodi lle byddai'n berthnasol ac o fudd rywbryd yn y dyfodol. Ymgwymerwyd ag atchweliadau map (OS cynnar, mapiau Degwm ac Ystâd), ac ymgynghorwyd ag awyrluniau er mwyn deall a phenderfynu ar ddatblygiad/camau i'w cymryd o ran cyfanrwydd y dirwedd ddiwydiannol wedi'i ganoli ar bob un o'r gweithfeydd haearn a ddewiswyd. Yn y ffordd hon, gellir cymharu'r dystiolaeth gartograffaid hanesyddol a'r lluniau map/awyrluniau modern er mwyn caniatáu mapio maint y dirwedd sydd wedi goroesi ac sydd wedi'i nodi a hefyd yr elfennau allweddol sydd wedi'i nodi.

Dylai'r astudiaeth, yn y pen draw, roi'r wybodaeth sydd ei hangen i:

- asesu cyflwr presennol goroesi/cadwraeth a gwarchod a'r anghenion cofnodi (o dirweddau'r gweithfeydd haearn ymyl ogleddol y maes glo)
- hysbysu materion diogelu a rheoli yn y dyfodol, gan gynnwys cynigion amserlennu yn y dyfodol (o ran tirweddau gweithfeydd haearn ymyl ogleddol y maes glo)
- hysbysu'r Awdurdodau Unedol perthnasol ar faterion yn ymwneud â thirwedd gweithfeydd haearn diwydiannol yn y broses gynllunio, gan gynnwys cynllunio i'r dyfodol.
- rhoi cymorth yn asesu'r effaith ehangach y byddai datblygiad arfaethedig yn y dyfodol yn ei gael ar dirwedd gweithfeydd haearn diwydiannol
- rhoi cymorth yn gwerthuso gwerth esthetig neu amwynderol y dirwedd gweithfeydd haearn diwydiannol.
- rhoi cymorth yn mesur effaith cynigion datblygu unigol ar gyfanrwydd hanesyddol cyffredinol a chydlyniad y tirweddau gweithfeydd haearn diwydiannol, a chyfeirio'n enwedig at y pynciau o symud elfennau hanesyddol o'u safle yn gyfan gwbl, neu eu gwahanu, eu darnio, neu eu dadleoli.
- asesu effeithiau cronol newidiadau eilradd neu newidiadau graddol gydag amser.

Yn ei hanfod, bydd y gwaith yn helpu i sicrhau fod unrhyw newidiadau angenrheidiol i dirwedd y gweithfeydd haearn yn cael ei gymhwyso heb aberthu cyfanrwydd a chydlyniad hanfodol yr amgylchedd hanesyddol. Cyflwynir yr adroddiad mewn ffordd fel y gellir ystyried diweddarau'r wybodaeth drwy gyfrwng system GIS. Bydd hyn yn caniatáu i ddata gael ei storio, ei fanipiweiddio, ei ddadansoddi, ei holi, a'i gyflwyno, a bydd hefyd yn caniatáu i wybodaeth gael ei ddiweddarau yn y dyfodol. Bydd y gydran Technoleg Gwybodaeth o'r prosiect hwn yn uchel felly, a bydd yn creu model digidol dynamig ac aml-haenog ar gyfer ardal yr astudiaeth, Mae'r prosiect hwn wedi ei rannu yn bum set o brif dasgau, mae gwaith wedi'i gwblhau neu mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud arno yn y tair set gyntaf.

1. Adolygu a chreu dogfennau gwaelodlin

- Adolygu a chreu dogfennau ar gyfer tirweddau gweithfeydd
- Canfod beth yw allgynnyrch ffynonellau hanesyddol
- Cael copïau o argraffiad cyntaf mapiau OS 1:2500 i bob mwynglawdd
- Adolygu tystiolaeth awyrluniau ar gyfer tirweddau gweithfeydd haearn
- Creu llyfryddiaeth gyffredinol ar gyfer tirweddau gweithfeydd haearn ar ymyl ogleddol y maes glo
- Creu rhestr o ffynonellau a llyfryddiaeth ar gyfer tirweddau unigol gweithfeydd haearn.
- Casglu gwybodaeth ar dirfesuriadau ac archwiliadau archeolegol
- Creu rhestr o dirweddau gweithfeydd haearn ac elfennau allweddol ynddynt

- Adolygu rhestrau sydd gan yr Ymddiriedolaeth eisoes a chreu mapiau dosbarthiad
2. Adolygu cyflwr presennol gwarchodaeth a bygythiadau
- Sefydlu beth yw maint y rhestru/amserlennu presennol
 - Adolygu Cynlluniau Awdurdodau Unedol/Cynlluniau Awdurdod Datblygu Cymru
3. Ymgymryd ag ymchwiliadau safleoedd dethol
- Penderfynu beth yw criteria dewis safleoedd y byddwn yn ymweld â hwy
 - Dewis safleoedd i'w hymweld â hwy
 - Dechrau rhaglen o gymryd awyrluniau
 - Ymweld â safleoedd
 - Canfod beth yw maint a safon y gweddillion sydd wedi goroesi
 - Ymgymryd â mapio sydyn (sylfaen anodedig 1: 2500), disgrifio a recordio ffotograffig yn ddigonol i ddangos maint a safon y gweddillion sydd wedi goroesi).

Cyfeiriad

Ince P 1993 *The South Wales Iron Industry 1750-1885* (Merton Press)

YAMG 81 *Gwella CCA (Eglwysi)*

Canfu adolygiad o Gofnod Cofadeiladau a Safleoedd nad oedd data o'r Arolwg Eglwysi wedi ei ychwanegu gan nad oedd manyleb y prosiect yn gofyn i'r dasg gael ei chyflawni. Aethpwyd i'r afael â'r mater.

CYTUNDEBAU GWYDDONOL WEDI'U HARIANNU GAN CADW

Ni wnaethpwyd unrhyw alwadau sylweddol ar gytundeb Gwyddonol CADW yn ystod y cyfnod adrodd

ADOLYGIAD ÔL-GLODDIO A CHYHOEDDI

Nid ymgymeryd ag unrhyw brosiectau ôl-gloddio a ariennid gan CADW yn y flwyddyn 2003-2004. Cwblhawyd yr adroddiadau canlynol:¹

- Evans, EM *Prehistoric and Ritual Funerary Monuments in Glamorgan*
- Lewis, R *Prehistoric and Ritual Funerary Monuments in Gwent*

Rhoddwyd papur o'r enw *Continuity and Renewal of Monastic Landholding in Wales before and after the Anglo-Norman Conquest* gan Dr E Evans i Gynhadledd Archaeoleg Eglwysi Celtaidd Canoloesol Cynnar, a gynhaliwyd ym Mangor ym Medi 2004. Cyhoeddir y papur mewn da bryd fel rhan o drafodion y Gynhadledd.

¹ Mae ei gyflwyno i ffynonellau cyhoeddi wedi'i ohirio ar hyn o bryd gan yr adolygir yr adroddiadau, yn enwedig y rhai ar safleoedd Morgannwg, gan ddilyn astudiaeth o'r safleoedd na chynhwysid yn y rhaglen waith wreiddiol.

Adroddiadau 'Llenyddiaeth Lwyd' ar waith a ariennir gan grantiau.

Mae'r gronfa ddata o'r holl adroddiadau llenyddiaeth lwyd a gynhyrchwyd ar gyfer CADW: Henebion Hanesyddol Cymru wedi ei gynnal a rhoddwyd copi i'r Arolygiaeth. Anfonir diweddariad ar ôl y cyfarfod adolygu hanner-blyneddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhyrchwyd yr adroddiadau canlynol:-

- *Prehistoric Funerary and Ritual Monuments Survey: Glamorgan and Gwent survey synthesis* Rhif adroddiad YAMG **2003/068** (YAMG 72)
- *Roman Roads and Vici in Southeast Wales: Year 2 Interim Report* Rhif adroddiad YAMG **2003/076** (YAMG 75)
- *Historic Landscape Characterisation Study: Merthyr Mawr, Margam & Kenfig Burrows part 1and 2 landscape characterisation and management* Rhif adroddiad YAMG **2003/081** (YAMG 61)
- *Historic Landscape Characterisation Study: Mynydd Margam/Margam Mountain part 1and 2 landscape characterisation and management* Rhif adroddiad YAMG **2003/082** (YAMG 61)
- *Prehistoric interrupted-ditch enclosures of Southeast Wales Survey* Rhif adroddiad YAMG **2003/084** (YAMG 77)
- *Historic Landscape Characterisation Study: Cwm Clydach/Clydach Gorge part 1and 2 landscape characterisation and management* Rhif adroddiad YAMG **2004/01** (YAMG 61)
- *Roman Roads and Vici in Southeast Wales: Year 2 Report* Rhif adroddiad YAMG **2004/02** (YAMG 75)
- *Early Medieval Ecclesiastical sites in Southeast Wales: Rapid field survey of selected sites* Rhif adroddiad YAMG **2004/019** (YAMG 73)

RHAGLEN ARFAETHEDIG HYDREF 2004- MAWRTH 2005

YAMG 1 *Gwasanaethau Rheoli Treftadaeth Ranbarthol*

Bydd Adran Rheoli Treftadaeth Ranbarthol yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu gwasanaethau rheoli treftadaeth archeolegol eang a manwl a gwasanaethu estyn, yn seiliedig ar y rhestr y cytunwyd arni o Wasanaethau Curadurol. Parheir i ddarparu gwybodaeth ystadegol fanwl i CADW yn ein hadroddiadau monitro rheolaidd.

Yn yr hanner blwyddyn sydd i ddod, yn benodol, bydd yr Adran Dreftadaeth yn:

- parhau i ddarparu'r arddangosfa 'Archaeoleg a Chynllunio' i Awdurdodau Unedol.
- helpu i baratoi taflen tirwedd hanesyddol Lefelau Gwent.
- diweddarau rhan CADW o wefan yr Ymddiriedolaeth
- cynnal Archwiliad Ymchwil De-ddwyrain Cymru a'i osod ar y we
- paratoi erthyglau estyn cyffredinol ar bynciau archeolegol

YAMG 43 *Gwasanaethau Cynllunio Archeolegol Rhanbarthol*

Bydd Adran Rheoli Datblygiad yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu gwasanaeth cynllunio manwl a chynhwysfawr i'r deuddeg Awdurdod Unedol Rhanbarthol, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, datblygwyr asiantau a chontractwyr archeolegol. Mae'r prosiect yn dal i ddibynnu ar drefniadau tridarn darparu gwasanaethau sydd yn bodoli gyda'r Ymddiriedolaeth, CADW, a'r deuddeg awdurdodol cynllunio rhanbarthol. Parheir i ddarparu gwybodaeth ystadegol fanwl i CADW yn ein hadroddiadau monitro cyson.

YAMG 61 *Nodweddu tirwedd*

Er mwyn parhau i wneud cynnydd o ran lledaenu canlyniadau'r gwaith nodweddu i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, bydd paratoi a llwytho i fyny adroddiad Nodweddu Tirwedd Hanesyddol y Rhondda fel tudalennau gwe a golygu adrannau o adroddiad Nodweddu Tirwedd Hanesyddol Merthyr Tudful yn digwydd ym mis Tachwedd 2004. Er mwyn galluogi iddo gael ei bostio ar y we, bydd yn rhaid paratoi a fformatio cynnwys adroddiad y Rhondda fel tudalennau gwe a'u llwytho i fyny. Yn ogystal â hyn, bydd yn rhaid newid darluniau ffotograffig a mapiau yn dangos yr ardaloedd nodweddu hanesyddol i fformat a fydd yn galluogi iddynt gael eu gosod ar y we. Bydd angen golygu cynnwys adroddiad Merthyr Tudful er mwyn galluogi iddo gael ei bostio ar y we. Bydd yn rhaid golygu testun adroddiad Merthyr Tudful, ac yn benodol y cefndir hanesyddol a'r disgrifiadau unigol o ardaloedd o dirwedd hanesyddol, i lefel a fydd yn cyd-fynd â deunydd blaenorol a bostiwyd ar y we. Bydd angen cyfieithu'r testun i'r Gymraeg hefyd.

YAMG 67 *Tir Gofal*

Amcan y prosiect hwn, sy'n dal i fynd, yw darparu'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen ar gynllun Tir Gofal. Ymgymerir â gwaith pellach ar yr HE1s ar gyfer Blwyddyn 4 y cynllun hyd at y mwyafswm y cytunwyd arno o 63, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth archeolegol ddiweddaraf ar gael i Gyngor Cefn Gwlad Cymru cyn iddynt ymweld â ffermydd. Bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn mynychu cyfarfodydd cenedlaethol a rhanbarthol pellach a rhoi cymorth yn adolygu dulliau gweithredu Tir Gofal.

YAMG 75 Heolydd a Ficysau Rhufeinig

O ystyried yn enwedig canlyniadau'r arolwg geoffisegol, ystyrid yn wreiddiol na fyddai'r data o safon ddigonol i gyhoeddi adroddiad crynodebol ar y gwaith mewn cylchgrawn cenedlaethol. Mae profion maes yr arolwg geoffisegol, fodd bynnag, yn awgrymu y dylid trafod y dehongliadau gwreiddiol yn ofalus, ac nad yw'r canlyniadau mor syfrdanol ag y credid, ac y byddai cyhoeddiad rhanbarthol fel *Archaeology in Wales* yn fwy addas. Bwriedir cyhoeddi adroddiad cwbl fanwl, o gylchrediad cyfyngedig ar waith prosiect eleni, o hyd. Fel atodiad, bydd hwn yn cynnwys canlyniadau dadansoddiad yr awyrluniau ac ymweliadau â'r maes/cerdded yno sydd i'w cyflawni yn anheddiad Pentwyn Triley i'r gogledd o'r Fenni. O ystyried poblogrwydd cyffredinol Archaeoleg Rufeinig, credwn y byddai'n fuddiol ystyried estyn pellach ar y prosiect hwn, gan gynnwys efallai'r arolwg anheddiad Rhufeinig-Prydeinig cynharach, a Fframwaith Ymchwil Amgylchion Caerllion, efallai drwy adran wedi'i neilltuo yn rhan CADW o'n gwefan a fydd wedi'i hailadeiladu.

YAMG 76 Glannau Trefol De-ddwyrain Cymru

Gan ddilyn cwblhau'r ymweliadau â'r safleoedd yn ail hanner y flwyddyn hon, cysylltir y mapiau digidol â chronfa ddata'r prosiect a chynhyrchir mapiau deongliadol, gan amlygu parthau o botensial archeolegol. Cyflwynir adroddiad ar waith Blwyddyn 2 hefyd. Yn ogystal â hyn, archwilir ffyrdd eraill o ledaenu, er mwyn sicrhau bod canlyniadau'r gwaith hwn yn cyrraedd cynulleidfa eang ac amrywiol. Bydd hyn yn hwyluso amcanion ymchwil y prosiect, hynny yw gwarchodaeth barhaus adnodd archeolegol bregus y glannau drwy reolaeth amlddisgyblaethol ac ar sail gwybodaeth.

YAMG 78 Llociau amddiffynnol cynhanesyddol

Mae'r prosiect, a fydd eleni yn archwilio Llociau Amddiffynnol Cynhanesyddol yn hen siroedd Morgannwg, newydd ddechrau. Gan ddilyn gwella'r gronfa ddata o ganlyniad i archwiliadau arferol, dewisir safleoedd i ymweld â hwy. Disgwylir i'r rhain ddigwydd rhwng diwedd Tachwedd 2004 ac Ionawr 2005, a'r adrodd i'w gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2005.

YAMG 79 Amgylchion Caerllion

Mae'r fframwaith drafft ymchwil wedi'i ddisbarthu i ymgynghorwyr. Mae ail gyfarfod ymgynghorwyr i'w gynnal yn Hydref 2004 a phenderfynir ar y fframwaith terfynol gan ddilyn y cyfarfod hwnnw a derbyn unrhyw gynrychiolaethau ysgrifenedig.

YAMG 80 Gweithfeydd Haearn De-ddwyrain Cymru

Ailddechreuir ar y prosiect yn Rhagfyr 2004. Mae gweithio hyd nes ei orffen yn y flwyddyn bresennol yn cynnwys y setiau canlynol o dasgau:-

4. Adolygu'r data sydd wedi'i gasglu

- Ystyried a phenderfynu ar anghenion a blaenoriaethau cofnodi yn y dyfodol
- Ystyried ac adolygu methodoleg ar gyfer cofnodi
- Ystyried datblygu systemau graddio
- Trafod canlyniadau â CHADW a'r grŵp prosiect

5. Adrodd

- Adolygu yn fras arwyddocâd a phwysigrwydd safleoedd unigol
- Adolygu arwyddocâd a phwysigrwydd hanesyddol cymharol safleoedd unigol
- Darparu disgrifiad crynodebol gweddillion sydd wedi goroesi ac adolygu eu harwyddocâd
- Adolygu bygythiadau a chynigion rheoli presennol, ac asesu unrhyw effaith tebygol
- Adolygu a thrafod blaenoriaethau o ran cofnodi gwaith maes yn fanwl.
- Paratoi darluniadau ar gyfer yr adroddiad
- Cynhyrchu adroddiad gan ddefnyddio cyfleusterau DTP
- Cyflwyno adroddiad i CADW
- Darparu copïau i bobl sydd â diddordeb

